

**Arolygiad o dan Adran 28  
Deddf Addysg 2005**

**Adroddiad ar Ansawdd Addysg yn**

**Ysgol Griffith Jones  
Heol yr Orsaf  
Sanclêr  
Sir Gaerfyrddin  
SA33 4BT**

**Rhif yr Ysgol: 6692384**

**Dyddiad yr Arolygiad: 21 Mai 2007**

**gan**

**Len Jones  
16360**

**Dyddiad Cyhoeddi: 24 Gorffennaf 2007**

**O dan rif contract Estyn: 1121106**

**® Hawlfraint y Goron 2007: Gellir aildefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei aildefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael o'r ysgol. O dan Ddeddf Addysg 2005, rhaid i'r ysgol ddarparu copïau o'r adroddiad yn ddi-dâl i gategorïau penodol o bobl. Gellir codi tâl nad yw'n fwy na chost ailgynhyrchu ar bobl eraill sy'n gofyn am gopi o'r adroddiad.

Arolygwyd Ysgol Gruffydd Jones fel rhan o raglen genedlaethol arolygu ysgolion. Diben arolygu yw nodi nodweddion da a diffygion mewn ysgolion er mwyn iddynt allu gwella ansawdd yr addysg a gynigir a gwella'r safonau a gyflawnir gan eu disgyblion. Bwriedir i arolygu pob ysgol o fewn cylch chwe blynedd hefyd roi mwy o wybodaeth i rieni am berfformiad ysgol eu plentyn.

Cynhaliwyd yr arolygiad o Ysgol Griffith Jones rhwng 21/05/07 a 23/05/07, gan dîm annibynnol o arolygwyr, wedi'u harwain gan Len Jones. Comisiynwyd yr arolygiad gan Estyn, sef corff statudol sy'n annibynnol ar, ond a ariennir gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru.

Roedd yn ofynnol i'r tîm adrodd ar y safonau a gyflawnir gan ddisgyblion, ansawdd yr addysg a ddarperir gan yr ysgol, ansawdd arweinyddiaeth a rheolaeth a'r cyfraniad a wneir gan yr ysgol at ddatblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol ei disgyblion.

Mae'r raddfa pum pwynt a ddefnyddir i gynrychioli'r holl farnau arolygu yn yr adroddiad hwn fel a ganlyn:

<b>Gradd 1</b>	da gyda nodweddion rhagorol
<b>Gradd 2</b>	nodweddion da a dim diffygion pwysig
<b>Gradd 3</b>	nodweddion da'n gorbwyso diffygion
<b>Gradd 4</b>	rhai nodweddion da, ond diffygion mewn meysydd pwysig
<b>Gradd 5</b>	llawer o ddiffygion pwysig

Mae tri math o arolygiad.

Ar gyfer **pob** arolygiad, ceir adroddiad ysgrifenedig ar saith cwestiwn allweddol.

Ar gyfer arolygiadau **byr**, ni cheir unrhyw adroddiadau pwnc.

Ar gyfer arolygiadau **safonol**, ceir adroddiadau ar chwe phwnc hefyd.

Ar gyfer arolygiadau **llawn**, ceir adroddiadau ar bob pwnc hefyd.

**Estyn sy'n penderfynu pa fath o arolygiad y bydd ysgol yn ei gael, yn bennaf ar sail ei pherfformiad yn y gorffennol. Mae'r rhan fwyaf o ysgolion yn cael arolygiad safonol. Mae pob ysgol feithrin, ysgol arbennig, unedau cyfeirio disgyblion ac unrhyw ysgol newydd neu ysgol sydd wedi uno yn cael arolygiad llawn.**

Cafodd yr ysgol hon arolygiad **safonol**.

## Grwpiau blwyddyn a chyfnodau allweddol

Mae ysgolion yn defnyddio system gyffredin o rifo grwpiau blwyddyn o ddechrau addysg ysgol orfodol i 18 oed. Mae'r system hon yn pwysleisio pwysigrwydd parhad ac yn hwyluso cyfathrebu ymhlith ysgolion, cyrff llywodraethol, rhieni ac AALIau.

Mae'r term 'Derbyn' (D) yn cyfeirio at grŵp blwyddyn o ddisgyblion mewn ysgol gynradd sy'n cyrraedd 5 oed yn ystod y flwyddyn academaidd. Mae Blwyddyn 1 yn cyfeirio at y grŵp blwyddyn o ddisgyblion sy'n cyrraedd 6 oed yn ystod y flwyddyn academaidd, ac ati. Blwyddyn 13 yw'r grŵp blwyddyn o fyfyrwyr sy'n cyrraedd 18 oed yn ystod y flwyddyn academaidd.

Sector cynradd:

Blwyddyn	D	B1	B2	B3	B4	B5	B6
Oedrannau	4-5	5-6	6-7	7-8	8-9	9-10	10-11

Sector uwchradd:

Blwyddyn	B7	B8	B9	B10	B11	B12	B13
Oedrannau	11-12	12-13	13-14	14-15	15-16	16-17	17-18

Mae'r Cwricwlwm Cenedlaethol yn ymdrin â phedwar cyfnod allweddol fel a ganlyn:

Cyfnod allweddol 1	Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2
Cyfnod allweddol 2	Blwyddyn 3 i Flwyddyn 6
Cyfnod allweddol 3	Blwyddyn 7 i Flwyddyn 9
Cyfnod allweddol 4	Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11

<b>Cynnwys</b>	<b>Tudalen</b>
<b>Cyd-destun</b>	1
<b>Crynodeb</b>	2
<b>Argymhellion</b>	6
<b>Safonau</b>	7
Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda y mae dysgwyr yn cyflawni?	7
<b>Ansawdd yr addysg a'r hyfforddiant</b>	9
Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor effeithiol yw'r addysgu, yr hyfforddi a'r asesu?	9
Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda y mae profiadau dysgu yn cwrdd ag anghenion a diddordebau dysgwyr a'r gymuned ehangach?	11
Cwestiwn Allweddol 4: Pa mor dda yw'r gofal, y cyfarwyddyd a'r gefnogaeth i ddysgwyr?	13
<b>Arweinyddiaeth a rheolaeth</b>	15
Cwestiwn Allweddol 5: Pa mor effeithiol yw arweinyddiaeth a rheolaeth strategol?	15
Cwestiwn Allweddol 6: Pa mor dda y mae arweinwyr a rheolwyr yn arfarnu ac yn gwella ansawdd a safonau?	16
Cwestiwn Allweddol 7: Pa mor effeithlon y mae'r arweinwyr a rheolwyr wrth ddefnyddio adnoddau?	17
<b>Safonau a gyflawnir mewn pynciau a meysydd dysgu</b>	18
Saesneg	18
Cymraeg ail iaith	20
Mathemateg	21
Celf	22
Cerddoriaeth	23
Addysg gorfforol	24
<b>Ymateb yr ysgol i'r arolygiad</b>	24
<b>Atodiadau</b>	25
1 Gwybodaeth sylfaenol am yr ysgol	25
2 Data a dangosyddion ysgol	25
3 Canlyniadau asesiadau'r Cwricwlwm Cenedlaethol	26
4 Sail dystiolaeth yr arolygiad	27
5 Cyfansoddiad a chyfrifoldebau'r tîm arolygu	27

## Cyd-destun

### Natur y darparwr

1. Lleolir Ysgol Griffith Jones yn nhref fechan Sanclêr, naw milltir i'r gorllewin o Gaerfyrddin. Caiff ei chynnal gan Awdurdod Addysg Lleol (AALI) Sir Gaerfyrddin.
2. Mae'n darparu addysg ar gyfer disgyblion y dref yn ogystal â nifer fechan a ddaw o'r ardaloedd cyfagos. Yn ystod yr arolygiad roedd 220 o ddisgyblion ar y gofrestr, gan gynnwys 14 plentyn oed meithrin oedd yn mynychu'n rhan amser.
3. Mae'r ysgol yn cynnwys dwy ffrwd iaith; ceir pum dosbarth lle addysgir disgyblion trwy gyfrwng y Gymraeg, a thri dosbarth lle addysgir disgyblion trwy gyfrwng y Saesneg.
4. Daw tua 19% o ddisgyblion o gartrefi ble mae'r Gymraeg yn brif iaith o ran cyfathrebu.
5. Derbynnir disgyblion i'r ysgol ar ddechrau'r tymor yn dilyn eu trydydd pen-blwydd, pan maent yn mynychu'r sesiynau prynhawn. Yn ystod eu hail dymor maent yn mynychu'r sesiwn bore, ac yn dod yn ddisgyblion llawn amser yn ystod y trydydd tymor.
6. Cynrychiola'r disgyblion yr ystod lawn o allu. Mae'r ysgol yn disgrifio'r ardal o ble daw'r disgyblion fel un sydd ddim yn llewyrchus nac ychwaith o dan anfantais economaidd.
7. Mae tua 9% o'r disgyblion â'r hawl i brydau ysgol am ddim, ffigur sydd yn arwyddocaol is na ffigurau'r sir a Chymru-gyfan.
8. Mae bron i 30% o'r disgyblion ar gofrestr Anghenion Addysgu Ychwanegol (AAY) yr ysgol. Mae'r ffigur yma yn uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol.
9. Cafodd yr ysgol ei harolygu diwethaf ym Mehefin 2001; yr adeg honno roedd 263 o ddisgyblion ar y gofrestr.
10. Apwyntiwyd y pennaeth presennol i'w swydd ym mis Medi, 1995.

### Blaenoriaethau a thargedau'r ysgol

11. Mae blaenoriaethau'r ysgol ar gyfer 2006-07, fel y'u nodwyd yn y Cynllun Datblygu Ysgol (CDY) cyfredol, yn cynnwys:
  - Trwy raglen gyswllt drosiannol, codi medrau llythrennedd Saesneg ym mlwyddyn (B) 3 yn y ffrwd Saesneg ei chyfrwng;
  - Defnyddio canllawiau darllen i wella medrau darllen Cymraeg ail iaith yn y ffrwd Saesneg ei chyfrwng;
  - Datblygu medrau iaith a chwarae plant cyn-ysgol trwy'r prosiect iaith drwy Chwarae;
  - Codi safonau llythrennedd yn B5/B6 yn y ffrwd cyfrwng Saesneg;
  - Adolygu a datblygu adnoddau llythrennedd (llyfrau darllen) ar draws yr ysgol (yn gysylltiedig â menter 'Darllen Miliwn o Eiriau' yr Asiantaeth Sgiliau Sylfaenol).

## Crynodeb

- Mae Ysgol Griffith Jones yn ysgol sydd yn cynnig amryw o gyfleoedd addysgol i'w disgyblion ac yn cyfrannu'n dda i'w lles. Mae'n llwyddo i rannau helaeth i gwrdd ag anghenion yr holl ddisgyblion. Fodd bynnag, nid yw'n llwyddo yn ei nod o ddatblygu hyfedredd dwyieithog yr holl ddisgyblion.
- Cytunodd y tîm arolygu gydag arfarniadau hunan arfarniad yr ysgol mewn pedair o'r saith cwestiwn allweddol. Yn y tri achos lle dyfarnwyd gradd wahanol, dyfarnodd y tîm arolygu radd uwch.

### Tabl o'r graddau a ddyfarnwyd

Cwestiwn Allweddol	Gradd arolygu
1 Pa mor dda y mae dysgwyr yn cyflawni?	Gradd 2
2 Pa mor effeithiol yw'r addysgu, yr hyfforddi a'r asesu?	Gradd 2
3 Pa mor dda y mae profiadau dysgu yn cwrdd ag anghenion a diddordebau dysgwyr a'r gymuned ehangach?	Gradd 2
4 Pa mor dda yw'r gofal, y cyfarwyddyd a'r gefnogaeth i ddysgwyr?	Gradd 2
5 Pa mor effeithiol yw arweinyddiaeth a rheolaeth strategol?	Gradd 2
6 Pa mor dda y mae arweinwyr a rheolwyr yn arfarnu ac yn gwella ansawdd a safonau?	Gradd 2
7 Pa mor effeithlon y mae'r arweinwyr a rheolwyr wrth ddefnyddio adnoddau?	Gradd 2

- Roedd safonau cyflawniad disgyblion yn y gwersi a arsylwyd fel a ganlyn:

Gradd 1	Gradd 2	Gradd 3	Gradd 4	Gradd 5
8%	71%	21%	0%	0%

### Graddau a ddyfernir yn y pynciau a arolygwyd

- Roedd y safonau cyflawniad yn y pynciau a arolygwyd fel a ganlyn:

Maes Dysgu	Cyfnod Allweddol 1	Cyfnod Allweddol 2
Saesneg	Gradd 3	Gradd 2
Cymraeg (ail iaith)	Gradd 3	Gradd 3
Mathemateg	Gradd 2	Gradd 2
Celf	Gradd 2	Gradd 1
Cerddoriaeth	Gradd 2	Gradd 2
Addysg gorffol	Gradd 1	Gradd 2

- Mae rhai gwendidau yn y ddarpariaeth addysgol ar gyfer y plant dan bump, ond ceir tystiolaeth y gellir unioni'r gwendidau hyn yn ddigon hawdd. Ymddengys y diffygion yn y ddarpariaeth ar gyfer plant oedran derbyn; mae'r ddarpariaeth ar gyfer plant oed meithrin yn dda.
- Mae disgyblion yn cyflawni'n dda yn eu gwybodaeth, eu dealltwriaeth a'u medrau. Maent yn ymwybodol iawn o'u targedau dysgu unigol. Nodwedd ragorol yw'r modd y mae disgyblion yn ymwybodol o'r amrywiol medrau dysgu maent yn ymarfer yn eu gwersi a'u gweithgareddau.
- Gwna disgyblion ag AAY gynnydd da, yn unol â'u gallu.
- Yn eu medrau allweddol, mae plant dan bump a disgyblion yng nghyfnodau allweddol 1 a 2 yn gwneud cynnydd da mewn perthynas â chyfathrebu/ llythrennedd, rhifedd a thechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh).

20. Mae hyfedredd dwyieithrwydd disgyblion o fewn y ffrwd Cymraeg ei chyfrwng yn dda; mae hyfedredd dwyieithrwydd disgyblion yn y ffrwd Saesneg ei chyfrwng yn annatblygedig.
21. Mae perfformiadau disgyblion yn y pynciau craidd yng nghyfnod allweddol 1 wedi bod yn y ddau chwarter isaf yn gyson dros y tair blynedd diwethaf. Mae hyn yn rhannol oherwydd y ffaith fod nifer uchel o ddisgyblion yn cyflawni sgorau isel yn yr Aseidiadau Gwaelodlin yn ystod eu tymor cyntaf yn yr ysgol, sydd yn arwain at roi cyfartaledd uchel o'r disgyblion ar y gofrestr AAY. Fodd bynnag, mae perfformiad disgyblion mewn Cymraeg (iaith gyntaf) wedi bod yn gyson uchel.
22. Dros y tair blynedd diwethaf, mae perfformiad disgyblion yng nghyfnod allweddol 2 yn y pynciau craidd wedi amrywio rhwng y chwarter uchaf a'r trydydd chwarter. Yn gyffredinol, roedd perfformiadau mewn mathemateg a gwyddoniaeth yn well na'r perfformiadau mewn Saesneg, tra roedd perfformiadau disgyblion mewn Cymraeg (iaith gyntaf) yn uchel.
23. Mae medrau personol disgyblion, gan gynnwys eu datblygiad ysbrydol, cymdeithasol a moesol, yn dda.
24. Yn gyffredinol, mae safon ymddygiad y disgyblion yn dda. Ceir nifer fechan o ddisgyblion, o fewn y ddau gyfnod allweddol, sydd yn tueddu i amharu ar lif y gwersi.
25. Mae ffigurau presenoldeb disgyblion dros y tri thymor llawn ddiwethaf yn foddhaol, gyda chyfartaledd o 93.4%. Mae disgyblion yn cyrraedd yr ysgol yn brydlon, ac yn brydlon ar ddechrau gwersi yn ystod y dydd.
26. Ar y cyfan, mae disgyblion yn defnyddio'u hamser yn dda o fewn gwersi, ac yn gallu canolbwyntio a dyfalbarhau yn dda ar eu tasgau. Maent yn cydweithredu'n dda gyda'i gilydd ar amrywiol weithgareddau, megis mewn gwersi addysg gorfforol ac o fewn gweithgareddau 'amser cylch'.
27. Mae medrau creadigol disgyblion yn datblygu'n dda; mewn meysydd penodol, megis celf ac addysg gorfforol, maent yn arddangos nodweddion rhagorol.
28. Mae disgyblion yn ymwybodol iawn o faterion a berthyn i amrywiaeth a chaiff eu parch am 'chwarae teg' ei adlewyrchu yn y ffordd maent yn ufuddhau i reolau o fewn gweithgareddau cystadleuol. Mae disgyblion yn ymateb yn dda i faterion dinasyddiaeth fyd-eang mewn sesiynau addoli ar y cyd, megis ymdrech merched ifanc yn yr India i ennill yr hawl i dderbyn addysg.
29. Mae gan ddisgyblion ymwybyddiaeth foddhaol o faterion yn gysylltiedig â gwaith, yn bennaf trwy redeg y siop ffrwythau yn ddyddiol.

### **Ansawdd yr addysg a'r hyfforddiant**

#### **Graddau ar gyfer addysgu**

<b>Gradd 1</b>	<b>Gradd 2</b>	<b>Gradd 3</b>	<b>Gradd 4</b>	<b>Gradd 5</b>
21%	50%	29%	0%	0%

30. Mae gan athrawon wybodaeth gadarn o'r pynciau maent yn addysgu. Mewn rhai pynciau, megis celf ac addysg gorfforol, mae athrawon yn arddangos ymwybyddiaeth ragorol o'r medrau i'w haddysgu.
31. Mewn gwersi, mae'r berthynas rhwng disgyblion ac athrawon yn dda. Mae athrawon yn llwyddo i ysbrydoli'r disgyblion ac, yn yr achosion gorau, maent yn

ymateb yn sensitif a chadarnhaol i'w hymdrechion. Mewn lleiafrif bach o wersi, mae athrawon yn caniatáu aflonyddwch diangen i amharu ar lif y wers.

32. Lle ceir nodweddion da neu ragorol yn y gwersi, mae gan athrawon wybodaeth gadarn o'r pwnc, gan gynnwys y technegau a'r medrau mwy manwl i'w meistrolï; defnyddiant gwestiynu penagored ac mae ymyrraeth athro wedi ei hamseru'n dda.
33. Lle'r oedd diffygion o fewn yr addysgu, roedd diffyg pendantrwydd a gosod disgwyliadau clir mewn perthynas â thasgau a chynnig cymorth annigonol i ddisgyblion i ymestyn a datblygu medrau.
34. Mae gan yr ysgol bolisi asesu, cofnodi ac adrodd clir, sydd yn darparu arweiniad a chefnogaeth dda ar gyfer gweithdrefnau yn y maes yma. Mae'r dirprwy bennaeth, sydd hefyd yn gydlynedd asesu, yn helpu sicrhau y gwneir dadansoddiad effeithiol o ystod o brofion mewn iaith a mathemateg. Mae gweithdrefnau ar gyfer asesu cynnydd disgyblion ag AAY yn dda.
35. Yn gyffredinol, mae adroddiadau blynyddol i rieni yn cydymffurfio gyda'r gofynion statudol ac yn darparu gwybodaeth am holl bynciau'r Cwricwlwm Cenedlaethol (CC), addysg grefyddol a'r chwe maes dysgu ar gyfer plant dan bump. Maent yn cynnig gwybodaeth arbennig o effeithiol wrth amlinellu medrau a chyflawniadau disgyblion yn y meysydd craidd, ac yn yr esiamplau gorau, mae'r ffocws ar y pynciau sylfaen ac addysg grefyddol yr un mor drwyadl.
36. Mae'r ysgol yn darparu cwricwlwm eang, cytbwys a pherthnasol sydd yn hygyrch i'r holl ddisgyblion, gan gynnwys y rhai ag AAY. Mae'r profiadau dysgu yn cwrdd â'r gofynion statudol ac yn darparu'n dda ar gyfer datblygiad cymdeithasol, moesol, ysbrydol a diwylliannol y disgyblion. Ceir rhai anghysondebau yn y ddarpariaeth addysgol ar gyfer y plant dan bump, ond mae tystiolaeth y gellid unioni'r gwendidau yma'n hawdd.
37. Dynodir cyfleoedd ar gyfer datblygu medrau gwranddo a siarad, darllen ac ysgrifennu, rhifedd a defnydd TGCh y disgyblion ar draws y cwricwlwm mewn cynllunio byr-dymor a chyfeirir yn effeithiol atynt mewn gwersi. Mae hyn yn helpu datblygiad cynyddol y medrau yma yn yr holl bynciau ar draws y cwricwlwm.
38. Mae'r ysgol yn effeithiol wrth hyrwyddo medrau dwyieithrwydd disgyblion yn y ffrwd cyfrwng-Cymraeg yng nghyfnod allweddol 2, a cheir tystiolaeth glir o gynydd wrth iddynt symud drwy'r cyfnod allweddol. Yn y ffrwd cyfrwng-Saesneg, fodd bynnag, ceir strategaethau llai effeithiol a chynllunio annigonol o gyfleoedd i ddisgyblion wneud defnydd o'r iaith Gymraeg mewn meysydd cwricwlaidd eraill ac mewn sefyllfaoedd mwy anffurfiol.
39. Trefnir nifer o ymweliadau bwriadol ar gyfer pob dosbarth i amrywiaeth o lefydd sydd yn gysylltiedig â'u hastudiaethau. Mae nifer yr ymwelwyr, gan gynnwys clerigwyr, grwpiau theatr ac aelodau o'r gymuned gaiff eu gwahodd i'r ysgol, yn cyfrannu'n effeithiol tuag at gyfoethogi'r cwricwlwm.
40. Mae'r ddarpariaeth ar gyfer datblygiad ysbrydol disgyblion yn dda. Derbyniant brofiadau o safon dda yn y gweithredoedd cyd-addoli ysgol-gyfan lle mae cerddoriaeth a chanu yn chwarae rhan bwysig. Mae disgyblion hefyd yn derbyn cyfleoedd i fyfrio ar themâu.
41. Ceir gweithdrefnau da hefyd ar gyfer datblygiad moesol a chymdeithasol y disgyblion. Codir ymwybyddiaeth disgyblion o rhai llai ffodus na nhw ac

ymatebant yn briodol trwy gyfrannu at achosion da. Ceir cyfleoedd da am gydweithredu da o fewn grwpiau yn y dosbarth. Gwneir defnydd effeithiol o sesiynau 'amser cylch'. Mae'r ysgol yn rhan o'r prosiect bwyta'n iach ysgolion lleol ac wedi cyflwyno nifer o fentrau effeithiol yn y maes yma.

42. Mae'r ddarpariaeth ar gyfer gweithgareddau y tu allan i oriau ysgol arferol yn dda ac yn cynnwys cyfleoedd chwaraeon amrywiol a phrofiadau yn berthynol â mudiad yr Urdd. Mae gwaith cartref wedi ei dargedu'n briodol ac yn cysylltu'n dda gyda phrofiadau dosbarth.
43. Mae gan yr ysgol bartneriaeth effeithiol gyda rhieni a ffrindiau'r ysgol o'r gymuned leol. Chwaraeant ran weithredol wrth godi arian trwy drefnu digwyddiadau cymdeithasol.
44. Mae gweithdrefnau sefydlu'r ysgol ar gyfer plant oed meithrin yn dda. Mae'r paratoadau ar gyfer trosglwyddo disgyblion i ddwy ysgol uwchradd wahanol yn dechrau yn ystod B5 a threfnir ymweliadau a thrafodaethau priodol er mwyn sicrhau fod y broses pontio yn brofiad cadarnhaol.
45. Trefnir rhai gweithgareddau yn berthynol â gwaith, megis ymweliadau gan yr heddlu, y gwasanaeth tân ac aelodau o grwpiau gwirfoddol, er mwyn meithrin ymwybyddiaeth disgyblion o fyd gwaith. Fodd bynnag, hyd yn hyn, nid yw'r agwedd yma wedi ei ddatblygu'n ddigonol.
46. Mae'r ysgol yn ymgymryd â meithrin ymwybyddiaeth disgyblion o faterion cynaliadwy yn effeithiol, trwy ei ymwneud â'r fenter Eco-Sgolion a thrwy gyfleoedd a rhoddir i aelodau o'r cyngor ysgol.
47. Mae ansawdd y gofal, y cymorth a'r cyfarwyddyd yn dda. Mae'r staff yn sensitif i anghenion disgyblion a dywed rhieni fod yr ysgol yn gefnogol, gydag awyrgylch gofalgar.
48. Ceir darpariaeth dda ar gyfer disgyblion ag AAY sydd yn llwyr gydymffurfio gyda'r Cod Ymarfer cenedlaethol. Arenwir anghenion disgyblion yn gynnwys trwy bryderon athrawon ac asesiadau systematig. Paratoir gweithgareddau gwahaniaethol o fewn y dosbarth a chaiff disgyblion ag anghenion penodol eu neilltuo ar gyfer gwaith grŵp bychan neu un-i-un. Caiff y disgyblion ag AAY eu cefnogi'n dda ac mae'r cydlynnydd cefnogi dysgu yn ymgymryd â'r rôl yn effeithiol a sensitif, gan gysylltu gyda'r athrawon, asiantaethau allanol a'r cynorthwywyr cefnogi dysgu.
49. Ceir polisiau effeithiol i hyrwyddo cyfleoedd cyfartal a chydaddoldeb hiliol, lleihau pob ffurf o aflonyddwch gan gynnwys bwllian a dileu ymddygiad gormesol. Mae staff yn goruchwyllo disgyblion yn ofalus adeg egwyl ac yn ymyrryd mewn unrhyw achosion sydd yn peri gofid iddynt.

### **Arweinyddiaeth a rheolaeth**

50. Caiff yr ysgol ei harwain mewn dull effeithiol, ac mae'r gweithredu a'r weinyddiaeth ddydd-i-ddydd yn dda. Mae'r tîm rheoli ysgol yn darparu arweinyddiaeth a chyfeiriad i'r ysgol.
51. Mae aelodau o'r corff llywodraethol yn cynnig cefnogaeth ymroddgar, ac yn ymrwymedig i werthoedd ac egwyddorion yr ysgol.

52. Mae gweithdrefnau hunan arfarnu wedi eu sefydlu'n dda ac ymgwymerir yn effeithiol â monitro amrywiol agweddau o'r ddarpariaeth gan yr arweinyddion cwrwclaid.
53. Nid yw'r ysgol, hyd yn hyn, yn gofyn barn rhieni yn ffurfiol am ddarpariaeth yr ysgol.
54. Mae'r CDY wedi ei gysylltu â'r broses hunan arfarnu. Fodd bynnag, nid yw'r dull o flaenoriaethu targedau datblygu yn glir ac nid yw'r CDY yn cynnwys adolygiad o flaenoriaethau blaenorol.
55. Cyflogir nifer digonol o staff sydd wedi eu cymhwyso'n briodol yn yr ysgol. Cânt eu cefnogi'n dda gan y staff ategol. Fodd bynnag, mae prinder staff cefnogi o fewn dosbarthiadau lle addysgir plant dan bump ochr yn ochr â disgyblion cyfnod allweddol 1.
56. Mae ansawdd a digonolrwydd yr adeilad a'r adnoddau sydd ar gael i'r ysgol, yn fewnol ac yn allanol, yn nodweddiadol. Gofelir yn dda am yr ysgol a chaiff ei chadw'n lân.
57. Mae arweinyddion ysgol ac aelodau o'r corff llywodraethol yn monitro digonolrwydd yr adnoddau mewn dull effeithlon.
58. Gwnaeth yr ysgol gynnydd da mewn perthynas â mwyafrif helaeth y materion allweddol a ddynodwyd yn yr arolygiad blaenorol. Mae'r rhain yn ymwneud â chodi safonau mewn pynciau oedd yn foddhaol yn yr arolygiad hwnnw, ac i sefydlu polisïau a gwella agweddau o AAY, asesu a hunan arfarnu. Fodd bynnag, ni wnaed digon o gynnydd mewn perthynas â chodi safonau Cymraeg fel ail iaith.

## Argymhellion

Er mwyn gwella ymhellach, mae angen i'r ysgol i:

- A1 Godi safonau mewn Saesneg yng nghyfnod allweddol 1 ac mewn Cymraeg (ail iaith) yn y ddau gyfnod allweddol;
- A2 Sicrhau cysondeb profiadau i'r plant dan bump o fewn y tri dosbarth lle cânt eu haddysgu;
- A3 Mabwysiadu strategaeth sydd yn meithrin datblygiad dwyieithrwydd ar draws y ffrwd Saesneg ei chyfrwng;
- A4 Mireinio'r CDY, fel ei bod yn cynnwys adolygiad o gyflawniad yn erbyn blaenoriaethau blaenorol ac yn nodi'r blaenoriaethau cyfredol yn gliriach;
- A5 Mabwysiadu strategaeth sydd yn datblygu ymwybyddiaeth y disgyblion o fydd gwaith a'u medrau menter.

Mae'r corff llywodraethol yn gyfrifol am ddiwygio'i gynllun datblygu cyfredol i ymgorffori camau i ymateb i'r argymhellion ymhen 45 diwrnod gwaith o dderbyn yr adroddiad, gan ddangos yr hyn y mae'r ysgol am ei wneud ynglŷn â'r argymhellion. Bydd y cynllun hwn, neu grynodedd ohono, yn cael ei ddosbarthu i bob rhiant yn yr ysgol.

## Safonau

### Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda y mae dysgwyr yn cyflawni?

#### Gradd 2: Nodweddion da a dim diffygion pwysig

59. Mae dyfarniad y tîm arolygu yn wahanol i'r Radd 3 a ddyfarnwyd gan yr ysgol yn ei hadroddiad hunan arfarnu. Darganfyddiad y tîm arolygu oedd bod 79% o safonau o fewn y gwersi yn dda neu well, a bod disgyblion yn cyflawni'n dda mewn perthynas â'u potensial.

60. Roedd safonau cyflawniad disgyblion yn y gwersi a arsylwyd fel a ganlyn:

Gradd 1	Gradd 2	Gradd 3	Gradd 4	Gradd 5
8%	71%	21%	0%	0%

61. Mae'r targedau yma yn uwch na thargedau Llywodraeth Cynulliad Cymru (LICC) ar gyfer 2007, sef bod 98% o wersi yn Radd 3 neu well, a bod 65% o wersi yn Radd 2 neu well.

#### Graddau ar gyfer safonau yn y pynciau a arolygwyd

62. Roedd safonau cyflawniad yn y pynciau a arolygwyd fel a ganlyn:

Maes dysgu	Cyfnod Allweddol 1	Cyfnod Allweddol 2
Saesneg	Gradd 3	Gradd 2
Cymraeg (ail iaith)	Gradd 3	Gradd 3
Mathemateg	Gradd 2	Gradd 2
Celf	Gradd 2	Gradd 1
Cerddoriaeth	Gradd 2	Gradd 2
Addysg gorfforol	Gradd 1	Gradd 2

63. Mae rhai gwendidau yn y ddarpariaeth addysgol ar gyfer y plant dan bump, ond ceir tystiolaeth y gellir unioni'r gwendidau hyn yn ddigon hawdd. Mae'r diffygion i'w canfod yn y ddarpariaeth ar gyfer plant oed derbyn; mae'r ddarpariaeth ar gyfer plant oed meithrin yn dda.

64. Datblyga plant dan bump medrau llythrennedd a rhifedd yn dda. Trafodant rannau tai mewn gwersi celf ac ymgymmerant â gweithgareddau cydweddu geiriau mewn gwaith iaith. Arddangosa'r plant dan bump hyder cynyddol yn eu medrau technoleg gwybodaeth, wrth iddynt ddefnyddio'r cyfleuster i raglennu tegan llawr 'bee-bot', i greu graffiau ac i luniadu.

65. Mae plant cyfnodau allweddol 1 a 2 yn datblygu eu medrau allweddol yn dda. Datblygant fedrau llythrennedd wrth greu dyddiaduron a chyfansoddi barddoniaeth mewn ffurf limrig a haicw; mewn gwersi hanes, maent yn creu disgrifiadau o fywyd bachgen adeg y Tuduriaid ac yn trafod cliwiau a gânt o astudio un o luniau Holbein. Datblyga eu medrau rhifedd wrth iddynt gael eu hannog i ddal cydbwysedd am nifer penodol o eiliadau mewn gwersi addysg gorfforol ac wrth ddelio gyda chyfesurynnau grid yn gysylltiedig ag ynys anghyfannedd. Maent yn ymwneud yn weithredol mewn tasgau technoleg gwybodaeth, pan maent yn cynllunio tai neu greu patrymau yn gysylltiedig â'u gwaith ar adeiladau.

66. Mae disgyblion o fewn y ffrwd cyfrwng-Gymraeg, yn enwedig yng nghyfnod allweddol 2, yn datblygu'n dda yn eu hyfedredd dwyieithog, gan allu dilyn gwersi a chofnodi agweddau o'u gwaith yn Gymraeg ac yn Saesneg. Nid oes gan ddisgyblion o fewn y ffrwd cyfrwng-Saesneg, yn y ddau gyfnod allweddol, afael digonol o'r Gymraeg, ac mae eu hyfedredd dwyieithrwydd yn annatblygedig.
67. Yn 2006, yng nghyfnod allweddol 1, roedd canlyniadau disgyblion yn yr asesiadau o'r pynciau craidd yn y chwarterel isaf, o'u cymharu â pherfformiadau ysgolion tebyg, mewn perthynas â nifer y disgyblion â'r hawl i dderbyn cinio ysgol am ddim.
68. Yn 2006, yng nghyfnod allweddol 2, roedd canlyniadau disgyblion yn yr asesiadau o'r pynciau craidd yn y trydydd chwarterel, wrth eu cymharu â pherfformiadau ysgolion tebyg, mewn perthynas â nifer y disgyblion â'r hawl i dderbyn cinio ysgol am ddim.
69. Dros y tair blynedd diwethaf, mae perfformiadau disgyblion yn y pynciau craidd yng nghyfnod allweddol 1 wedi bod yn y ddau chwarterel isaf yn gyson. Mae hyn yn rhannol oherwydd y ffaith i nifer uchel o ddisgyblion gyflawni sgorau isel yn yr Aseidiadau Gwaelodlin yn ystod eu tymor cyntaf yn yr ysgol, sydd yn arwain at roi cyfartaledd uchel o'r disgyblion ar y gofrestr AAY. Fodd bynnag, mae perfformiad disgyblion mewn Cymraeg (iaith gyntaf) wedi bod yn gyson uchel.
70. Dros y tair blynedd diwethaf, mae perfformiad disgyblion yng nghyfnod allweddol 2 yn y pynciau craidd wedi amrywio rhwng y chwarterel uchaf a'r trydydd chwarterel. Yn gyffredinol, roedd perfformiadau mewn mathemateg a gwyddoniaeth yn well na'r perfformiadau mewn Saesneg, tra roedd perfformiadau disgyblion mewn Cymraeg (iaith gyntaf) yn uchel.
71. Mae disgyblion yn cyflawni'n dda yn eu gwybodaeth, eu dealltwriaeth a'u medrau. Maent yn ymwybodol iawn o'u targedau dysgu unigol ac ymatebant yn dda wrth weithio tuag atynt o fewn amrywiol meysydd dysgu. Nodwedd ragorol yw'r modd y mae disgyblion yn ymwybodol o'r amrywiol fedrau dysgu maent yn ymarfer yn eu gwersi a'u gweithgareddau.
72. Gwna disgyblion ag AAY gynnydd da, yn unol â'u gallu.
73. Ar y cyfan, mae disgyblion yn defnyddio'u hamser yn dda o fewn gwersi, ac yn gallu canolbwyntio a dyfalbarhau yn dda ar eu tasgau. Maent yn cydweithredu'n dda gyda'i gilydd ar amrywiol weithgareddau, megis mewn gwersi addysg gorfforol ac o fewn gweithgareddau 'amser cylch'.
74. Mae ymddygiad cyffredinol y disgyblion yn dda. Arddangosant barch ac maent yn gwrtais o fewn gwersi ac mewn gweithgareddau ysgol cyffredinol. Ceir nifer fechan o ddisgyblion, o fewn y ddau gyfnod allweddol, sydd yn tueddu i amharu ar lif y gwersi.
75. Mae ffigurau presenoldeb disgyblion dros y tri thymor llawn ddiwethaf yn foddhaol, gyda chyfartaledd o 93.4%. Mae disgyblion yn cyrraedd yr ysgol yn brydlon, ac maent yn brydlon ar ddechrau gwersi yn ystod y dydd.
76. Arddangosa disgyblion medrau creadigol da; mewn rhai achosion, o fewn rhai agweddau o weithgareddau celf ac addysg gorfforol, maent yn cyflawni safonau rhagorol yn eu gallu creadigol.

77. Mae datblygiad ysbrydol a moesol disgyblion yn dda. Maent yn ymateb i gyfleoedd i fyfyrion, yn treulio cyfnodau tawel mewn sesiynau cyd-addoli ac yn cyfrannu'n barod tuag at achosion da, megis UNICEF a Nyrsgys Macmillan. Mae eu hymwybyddiaeth o faterion diwylliannol, o fewn Cymru ac ar lefel ehangach, yn datblygu'n dda wrth iddynt ddysgu am y dyn yr enwyd yr ysgol ar ei ôl, ac wrth iddynt astudio gweithiau arlunwyr enwog, rhai cyfoes ac o'r gorffennol. Mae eu profiadau wrth astudio a chyfansoddi barddoniaeth ar ffurf haicw hefyd yn cynyddu eu hymwybyddiaeth o ddiwylliannau eraill.
78. Mae disgyblion yn ymwybodol iawn o faterion yn gysylltiedig ag amrywiaeth ac yn parchu hawl pob unigolyn i dderbyn cyfleoedd cyfartal. Caiff eu parch am 'chwarae teg' ei hadlewyrchu yn y ffordd maent yn ufuddhau rheolau o fewn gweithgareddau cystadleuol.
79. Mewn sesiynau cyd-addoli, mae disgyblion yn ymateb yn dda i faterion dinasyddiaeth fyd-eang, megis ymdrech merched ifanc yn yr India i ennill yr hawl i dderbyn addysg.
80. Caiff ymwybyddiaeth disgyblion o'u cymuned ei ddatblygu gan yr amrywiol weithgareddau a drefnir. Mae'r côr yn cymryd rhan yn rheolaidd wrth ddiddanu yng nghartref lleol i'r henoed, tra bod unigolion o'r gymuned, megis y ficer lleol a'r swyddog heddlu cymunedol, yn ymwelwyr cyson â'r ysgol.
81. Mae disgyblion yn rhedeg y siop ffrwythau ddyddiol yn llwyddiannus ac, ar adegau, yn ymgymryd â gweithgareddau megis hyrwyddo cystadlaethau posteri. Fodd bynnag, boddhaol yn unig yw eu hymwybyddiaeth o fyd gwaith a datblygiad eu medrau menter.

## Ansawdd yr addysg a'r hyfforddiant

### Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor effeithiol yw'r addysgu, yr hyfforddi a'r asesu?

#### Gradd 2: Nodweddion da a dim diffygion pwysig

82. Mae arfarniad y tîm arolygu yn cytuno gyda'r radd a ddyfarnwyd gan yr ysgol yn ei hadroddiad hunan arfarnu.

83. Arfarnwyd ansawdd yr addysg fel a ganlyn:

Gradd 1	Gradd 2	Gradd 3	Gradd 4	Gradd 5
21%	50%	29%	0%	0%

84. Mae'r ffigurau yma ychydig yn is na'r cyfartaledd ar gyfer ysgolion cynradd yng Nghymru, fel y nodwyd yn Adroddiad Blynyddol y Prif Arolygydd Ysgolion am 2005-2006, sef bod 17% o'r addysgu yn Radd 1, 62% o'r addysgu yn Radd 2 ac 20% o'r addysgu yn Radd 3.

85. Mae gan athrawon wybodaeth gadarn o'r pynciau y maent yn eu haddysgu. Mewn rhai pynciau, megis celf ac addysg gorfforol, mae athrawon yn arddangos ymwybyddiaeth ragorol o'r medrau i'w haddysgu.

86. Mewn gwersi, mae'r berthynas rhwng disgyblion ac athrawon yn dda. Mae athrawon yn llwyddo i ysbrydoli'r disgyblion ac, yn yr achosion gorau, mae disgyblion yn ymateb yn sensitif a chadarnhaol i'w hymdrechion. Mewn lleiafrif

bychan o wersi, mae athrawon yn caniatáu aflonyddwch diangen i amharu ar lif y wers.

87. Lle'r oedd nodweddion rhagorol yn yr addysgu, roedd yr agweddau canlynol yn bresennol:
- gwybodaeth gadarn o'r pwnc, gan gynnwys y technegau a'r medrau mwy manwl i'w meistrolï;
  - sylw i fanylder sydd yn galluogi disgyblion i fireinio eu perfformiadau; a'r
  - defnydd o gwestiynu pen-agored ac ymyrraeth athro wedi ei amseru'n dda.
88. Yn y gwersi a arsylwyd lle'r oedd ansawdd yr addysgu'n dda, heb unrhyw ddiffygion pwysig, roedd y nodweddion canlynol yn bresennol:
- gwersi wedi eu cynllunio a'u strwythuro'n dda;
  - cyfeirio at waith a ymgwymerwyd eisoes;
  - defnydd effeithiol o adnoddau a chyfarpar;
  - rhoi cyfleoedd i ddisgyblion i ymchwilio ac i ddefnyddio eu dychymyg; a
  - pharodrwydd i ofyn i ddisgyblion i arddangos, tra bod eraill yn arsylwi a gwerthuso.
89. Lle'r oedd diffygion o fewn yr addysgu, roedd y nodweddion canlynol yn amlwg:
- diffyg manylrwydd a gosod disgwyliadau clir mewn perthynas â thasgau;
  - anogaeth annigonol i ddisgyblion fod yn wrandawyr ac arsylwyr brwd; a
  - chynnig cymorth annigonol i ddisgyblion i ymestyn a datblygu medrau.
90. Mae archwiliad o waith blaenorol yn llyfrau'r disgyblion yn dangos tueddiad i athrawon wneud defnydd gormodol o daflenni gwaith mewn amrywiol feysydd o'r cwricwlwm. Mae'r rhain yn tueddu cyfyngu cyfleoedd disgyblion wrth gofnodi canfyddiadau, meddyliau a chanlyniadau'r dysgu.
91. Mae gan yr ysgol bolisi asesu, cofnodi a chyflwyno clir sydd yn darparu arweiniad a chefnogaeth da ar gyfer gweithdrefnau yn y maes yma. Mae'r dirprwy bennaeth, sydd hefyd yn gydlynnydd asesu, yn helpu sicrhau y gwneir dadansoddiad effeithiol o ystod o brofion mewn iaith a mathemateg, er mwyn adnabod cryfderau a meysydd ar gyfer datblygiad ac i osod targedau unigol ar gyfer disgyblion. Mae system tracio electronig effeithiol mewn lle i fonitro cynnydd disgyblion. Mae gweithdrefnau ar gyfer asesu cynnydd disgyblion ag AAY yn dda.
92. Yn gyffredinol, ceir asesiadau rheolaidd yn y meysydd craidd. Mae gweithdrefnau asesu yn y pynciau sylfaen ac addysg grefyddol, ar y cyfan, yn fwy anffurfiol eu natur. Mae portffolios pwnc o waith wedi eu lefelu yn yr holl bynciau yn darparu arweiniad da i athrawon ac yn cynnig trylwyredd ychwanegol i'r broses asesu yn gyffredinol.
93. Ceir ffocws cynyddol ar asesu ffurfiannol ac, yn gyffredinol, mae asesu parhaus yn dechrau bod yn fwy effeithiol wrth fwydo'r cynllunio ar gyfer pob gallu mewn dull mwy trylwyr.

94. Caiff gwaith disgyblion ei farcio'n rheolaidd ac, ar y cyfan, rhoddir sylwadau adeiladol. Fodd bynnag, mae diffyg cysondeb wrth ddefnyddio'r gweithdrefnau marcio i ddynodi'r ffordd ymlaen i'r disgyblion. Tra bod y gweithdrefnau ar gyfnod gymharol gynnar o'u datblygiad, gwna disgyblion gynnydd da wrth gyfrannu i'w targedau eu hunain yn y meysydd craidd ac wrth werthuso eu cynnydd.
95. Yn gyffredinol, mae adroddiadau blynyddol i rieni yn cydymffurfio gyda'r gofynion statudol ac yn darparu gwybodaeth am holl bynciau'r CC. Maent yn arbennig o addysgiadol wrth amlinellu medrau a chyflawniadau disgyblion yn y meysydd craidd ac yn cynnwys targedau sydd yn dangos y ffordd ymlaen i ddisgyblion. Yn yr esiamplau gorau, mae'r ffocws ar y pynciau sylfaen ac addysg grefyddol yr un mor drwyadl.
96. Mae gan yr ysgol 'bolisi drws agored' yn ogystal â dau gyfle ffurfiol i'r rhieni drafod gwaith a chynnydd eu plant yn ystod y flwyddyn.

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda y mae profiadau dysgu yn cwrdd ag anghenion a diddordebau dysgwyr a'r gymuned ehangach?**

**Gradd 2: Nodweddion da a dim diffygion pwysig**

97. Mae arfarniad y tîm arolygu yn cytuno gyda'r radd a ddyfarnodd yr ysgol yn ei hadroddiad hunan arfarnu.
98. Mae'r ysgol yn darparu cwricwlwm eang, cytbwys a pherthnasol sydd yn hygyrch i'r holl ddisgyblion, gan gynnwys y rhai ag AAY. Mae'r profiadau dysgu yn cwrdd â'r gofynion statudol ac yn darparu'n dda ar gyfer datblygiad cymdeithasol, moesol, ysbrydol a diwylliannol y disgyblion. Ceir rhai anghysondebau yn y ddarpariaeth addysgol ar gyfer y plant dan bump, yn gysylltiedig â chynllunio gweithgareddau a chefnogaeth i'r plant derbyn, ond mae tystiolaeth y gellid unioni'r gwendidau yma'n fuan.
99. Yn gyffredinol, datblygir gwybodaeth a dealltwriaeth disgyblion yn dda trwy'r cwricwlwm a cheir systemau effeithiol i ddatblygu ymhellach y medrau mae'r disgyblion yn berchen arnynt eisoes. Ar y cyfan, mae cynllunio'r cydlynwyr yn sicrhau ehangder cynnydd a pharhad priodol. Tra ceir cynlluniau gwaith a gynlluniwyd yn dda yn y mwyafrif o bynciau sydd yn adlewyrchu gofynion y CC, nid yw cynllunio tymor hir a chanolig mewn Cymraeg fel ail iaith yn ddigon cynhwysfawr a chyda digon o ffocws. Mae'r strategaethau ar gyfer hyrwyddo'r pwnc yma'n llwyddiannus yn llai datblygedig.
100. Tra bod y ddogfen polisi ar gyfer hyrwyddo'r medrau allweddol yn gryno, dynodir cyfleoedd ar gyfer datblygu medrau gwrando a siarad, darllen ac ysgrifennu, rhifedd a defnydd TGCh y disgyblion ar draws y cwricwlwm mewn cynllunio byrdymor ac, ar y cyfan, cyfeirir yn effeithiol atynt mewn gwersi. Mae darpariaeth ar gyfer hyrwyddo medrau creadigol yn dda mewn celf a chrefft a cherddoriaeth, tra hyrwyddir y datblygiad o'r medrau datrys problemau yn benodol. Ceir nifer o brofiadau dysgu sydd yn galluogi disgyblion i ddatblygu medrau yn gysylltiedig â gwaith annibynnol. Mae'r cyfleoedd i ddisgyblion gydweithio mewn paru a grwpiau yn elfen bwysig o'r ddarpariaeth.
101. Ar y cyfan, derbynir disgyblion yn y ffrydiau Cymraeg a Saesneg eu cyfrwng brofiadau cwricwlaidd tebyg. Gwneir defnydd da o addysgu arbenigol mewn rhai

pynciau ac, ym mhen uchaf cyfnod allweddol 2, mae'r trefniadau grwpio ar gyfer addysgu a dysgu mathemateg yn darparu trylwyredd ychwanegol i'r cynllunio ar gyfer pob gallu.

102. Trefnir nifer o ymweliadau pwrpasol ar gyfer pob dosbarth i amrywiaeth o fannau, gan gynnwys adeilad y Cynulliad, yn ogystal â mannau sy'n gysylltiedig â'u hastudiaethau hanesyddol, daearyddol a chrefyddol. Mae ymwelwyr, gan gynnwys clerigwyr, grwpiau theatr ac aelodau o'r gymuned, yn chwarae rhan bwysig. Mae'r profiadau a ddarperir yn y cyd-destunau yma, ynghyd â'r ffocws ar brofiadau diogelwch ar y ffyrdd a chyrsgiau preswyl, yn cyfrannu'n effeithiol tuag at gyfoethogi'r cwricwlwm.
103. Mae'r ysgol yn effeithiol wrth hyrwyddo medrau dwyieithrwydd disgyblion yn y ffrwd cyfrwng-Cymraeg yng nghyfnod allweddol 2, a cheir tystiolaeth glir o gynnydd wrth iddynt symud drwy'r cyfnod allweddol. Yn y ffrwd cyfrwng-Saesneg, fodd bynnag, ceir strategaethau llai effeithiol a chynllunio annigonol o gyfleoedd i ddisgyblion wneud defnydd o'r iaith Gymraeg mewn meysydd cwricwlaidd eraill ac mewn sefyllfaoedd mwy anffurfiol. Rhydd yr ysgol bwyslais da ar ddiwylliant Cymreig a threftadaeth Cymru a chaiff y rhain eu cynnwys yn amlwg mewn amrywiol feysydd o'r cwricwlwm ac ym mywyd a gwaith cyffredinol yr ysgol; mae'r ysgol yn cwrdd â'r gofynion ar gyfer y Cwricwlwm Cymreig.
104. Yn ychwanegol, ceir gweithdrefnau a chyfleoedd priodol i hybu gwybodaeth a dealltwriaeth disgyblion o ddiwylliannau eraill trwy waith mewn addysg grefyddol a daearyddiaeth a'r ffocws ar wyliau a dathliadau mewn gwahanol ddiwylliannau.
105. Mae'r ddarpariaeth ar gyfer gweithgareddau y tu allan i oriau ysgol arferol yn dda ac yn cynnwys cyfleoedd chwaraeon amrywiol a phrofiadau perthnasol i fudiad yr Urdd. Caiff gwaith cartref ei dargedu'n briodol ac mae'n cysylltu'n dda gyda phrofiadau dosbarth.
106. Mae'r ddarpariaeth ar gyfer datblygiad ysbrydol disgyblion yn dda. Mae cerddoriaeth a chanu yn chwarae rhan bwysig yn ystod gweithredoedd cyd-addoli ysgol-gyfan. Gwna'r ficer lleol gyfraniad pwysig. Mae disgyblion hefyd yn derbyn cyfleoedd da i fyfyrion ar themâu a materion a chyfleoedd i arwain gweithredoedd o gyd-addoli fel dosbarthiadau unigol. Mae gwersi addysg grefyddol a phrofiadau eraill mewn celf a cherddoriaeth, yn cyfrannu tuag at ddatblygiad ysbrydol y disgyblion.
107. Ceir gweithdrefnau da hefyd ar gyfer datblygiad moesol a chymdeithasol y disgyblion. Ceir pwyslais ar sicrhau fod disgyblion yn gwrtais tuag at ei gilydd a thuag at staff ac ymwelwyr. Mae eu hymagweddu tuag at addysg yn iachus a brwdfrydig a cheir pwyslais da ac anogaeth gyson i helpu eraill. Mae disgyblion yn cyfrannu'n briodol at achosion da.
108. Trwy ei hymrwymiad gyda'r fenter Eco-Sgolion a chyfraniadau effeithiol y cyngor ysgol, mae'r ysgol yn effeithiol iawn wrth feithrin ymwybyddiaeth disgyblion o faterion cynaladwyedd. Gwelir hyn mewn gwaith mewn rhai meysydd pwnc ac mewn gweithdai yn gysylltiedig â thestun, lle gwneir y disgyblion yn ymwybodol o gynlluniau ailgylchu cymunedol.
109. Nid oes gan yr ysgol strategaeth bwrpasol i alluogi disgyblion a staff i ddysgu digon am fyd gwaith ac i ymgymryd â gweithgareddau mentrau-bychain.

## **Cwestiwn Allweddol 4: Pa mor dda yw'r gofal, y cyfarwyddyd a'r gefnogaeth i ddysgwyr?**

### **Gradd 2: Nodweddion da a dim diffygion pwysig**

110. Mae canfyddiadau'r tîm arolygu yn cytuno gyda'r arfarniad a wnaed gan yr ysgol yn ei hadroddiad hunan arfarnu.
111. Mae ansawdd y gofal, y cymorth a'r cyfarwyddyd yn dda. Mae'r staff yn sensitif i anghenion disgyblion a dywed rhieni fod yr ysgol yn gefnogol, gydag awyrgylch gofalgar.
112. Sefydlwyd cysylltiadau da gydag asiantaethau allanol. Caiff cysylltiadau eu cydlynu gan y cydlynnydd cefnogi dysgu. Defnyddir ystod o wasanaethau, gan gynnwys gwasanaethau meddygol a chymdeithasol a'r gwasanaethau cefnogi ymddygiad, yn briodol ac effeithiol.
113. Mae gan yr ysgol bartneriaeth effeithiol gyda rhieni a ffrindiau'r ysgol o'r gymuned leol. Chwaraeant ran weithredol wrth godi arian, trwy drefnu digwyddiadau cymdeithasol. Mae'r arian a godir yn cyfrannu i wella adnoddau, megis yr ystafell gyfrifiaduron newydd. Mae amryw o wirfoddolwyr rheolaidd yn cyfrannu'n arwyddocaol i fywyd ysgol, megis gwrando ar ddisgyblion yn darllen. Mae gan yr holl staff a gwirfoddolwyr gwiriadau cyfredol gan y Swyddfa Cofnodion Troseddol.
114. Mae'r ysgol wedi gweithredu cytundeb cartref-ysgol ffurfiol yn unol â chanllawiau LICC. Anogir rhieni i ymweld â'r ysgol ac mae'r cyfarfod cyn-arolwg a'r holiaduron yn dynodi fod rhieni yn hapus gyda'r ffordd gwrtais mae'r ysgol yn trin â'u pryderon ac yn ei pharchu.
115. Derbynia rhieni wybodaeth am fywyd a gwaith yr ysgol trwy nosweithiau ymgynghori gyda rhieni ac adroddiad ysgrifenedig ar ddiwedd y flwyddyn o gynydd eu plentyn. Mae gan yr ysgol brosbectws cynhwysfawr sydd yn amlinellu holl agweddau o fywyd ysgol. Rhennir newyddion yr ysgol yn dda o fewn y gymuned yn y wasg leol.
116. Mae gweithdrefnau anwytho'r ysgol yn dda. Pan ymuna plant â'r meithrin cânt gyfle i ymweld â'r ysgol ymlaen llaw gyda'i rhieni mewn noswaith agored. Hysbysir yr ysgol o unrhyw anhawster posibl y gall plentyn ei brofi yn ystod y trosglwyddo o'r ysgol feithrin, a phan yn briodol, caiff y plentyn gyfle i ymweld â'r feithrin ar gyfer 'sesiynau blasu'. Mae'r gweithdrefnau ar gyfer integreiddio plant newydd i mewn i'r ysgol yn effeithiol, a chesglir gwybodaeth am gryfderau, diddordebau ac anghenion disgyblion.
117. Mae'r paratodau ar gyfer trosglwyddo disgyblion i ddwy ysgol uwchradd wahanol yn dechrau yn ystod B5 a threfnir ymweliadau a thrafodaethau priodol er mwyn sicrhau fod y broses pontio yn brofiad cadarnhaol.
118. Mae ansawdd cyffredinol y ddarpariaeth a gynllunnir ar gyfer addysg personol a chymdeithasol yn dda. Mae'r agwedd yma yn treiddio'r cwricwlwm a defnyddir amser cylch yn effeithiol i helpu disgyblion ddatblygu eu rhinweddau personol a hybu gwerthoedd personol. Cysylltir â'r gwasanaeth cefnogi ymddygiad, derbynia grwpiau bychan o ddisgyblion gefnogaeth effeithiol ar faterion llythrennedd emosiynol a chodir unrhyw faterion drwy'r cyngor ysgol.

119. Caiff datblygiad personol y disgybl ei hyrwyddo ymhellach trwy'r fenter Ysgolion Iach. Mae'r ysgol yn weithredol yn hyrwyddo pwysigrwydd ffordd iach o fyw. Mae'r siop ffrwythau yn agor yn ddyddiol, ymgwymerir â gweithgareddau chwaraeon ac mae gweithwyr iechedd proffesiynol yn cyfrannu arbenigedd addas i agweddau penodol o addysg y disgyblion.
120. Caiff presenoldeb a phrydlondeb eu monitro'n systematig a thargedir disgyblion sydd yn cyrraedd yn hwyr yn gyson. Pan fod angen, mae'r ysgol yn derbyn cymorth gan y swyddog lles addysg i fonitro patrymau presenoldeb a phrydlondeb. Mae ymdrech i gadw awdit ysgol wrth fonitro presenoldeb yn nodwedd ragorol o'r ddarpariaeth.
121. Caiff ymddygiad a pherfformiad disgyblion eu monitro yn briodol. Defnyddir strategaethau atalfa maes chwarae a neuadd yn effeithiol i amlygu a gostwng problemau ymddygiadol. Caiff rheolau ysgol a dosbarth eu harddangos ac mae datganiad cenhadaeth yr ysgol yn pwysleisio pwysigrwydd 'parchu a gweithredu ar safbwynt pobl eraill i wneud ysgol dda hyd yn oed yn well. Mae'n springfwrdd i fywyd'.
122. Caiff gweithdrefnau asesiadau risg priodol eu dogfennu, er mwyn helpu i sicrhau amgylchedd iachus a diogel yn yr ysgol ac yn ystod ymweliadau neu weithgareddau addysgol. Mae'r ysgol yn cymryd rhan mewn mentrau *Kerbcraft* ac mae'r swyddogion diogelwch ffyrdd, y gwasanaeth tân, yr heddlu a staff hyfedredd beicio yn helpu hyrwyddo amgylchedd diogel. Mae staff wedi derbyn hyfforddiant cymorth cyntaf ac mae disgyblion hŷn ynghlwm â'r rhaglen *Heartstart* i hyfforddi disgyblion am weithdrefnau cymorth cyntaf. Caiff y polisi iechedd a diogelwch ei hadolygu a'i drafod gyda'r staff yn rheolaidd.
123. Mae llywodraethwyr wedi mabwysiadu'r polisi Amddiffyn Plant ac mae'r pennaeth a'r cydlynnydd cefnogi dysgu yn ymwybodol o'r gweithdrefnau penodol i'w dilyn. Fodd bynnag, nid yw staff wedi derbyn hyfforddiant priodol yn y maes yma.
124. Ceir darpariaeth dda ar gyfer disgyblion ag AAY sydd yn llwyr gydymffurfio gyda'r Cod Ymarfer cenedlaethol. Dynodir anghenion disgyblion yn gynnar trwy bryderon athrawon ac asesiadau systematig. Ymgwymerir â phroffion diagnostig pellach i amlygu'r maes penodol lle mae angen. Paratoir cynlluniau addysg unigol (CAUau) addas sydd yn dynodi'r targedau ar gyfer gwelliant gyda chydweithrediad yr athrawon, y cydlynnydd cefnogi dysgu a'r rhieni. Caiff cynnydd disgyblion ag AAY ei fonitro'n rheolaidd a chynhelir cyfarfodydd adolygu, sydd yn cynnwys y disgyblion, rhieni a'r gweithwyr proffesiynol priodol o leiaf ddwywaith y flwyddyn. Yn ogystal, mae cyfle wythnosol i rieni i drafod cynnydd gyda'r cydlynnydd cefnogi dysgu, os ddymunant wneud hynny.
125. Paratoir gweithgareddau gwahaniaethol dosbarth a chaiff disgyblion ag anghenion arwyddocaol eu neilltuo ar gyfer gwaith grŵp bychan neu un-i-un. Mae'r sesiynau yma yn cynnwys datblygu medrau lleferydd ac iaith a rhifedd, gwaith cydlynol a rhaglenni ymddygiad. Fodd bynnag, ar brydiau, nid yw'r ddarpariaeth yma yn ymestyn y plentyn unigol yn ddigonol.
126. Caiff y disgyblion ag AAY eu cefnogi'n dda ac mae'r cydlynnydd cefnogi dysgu yn ymgymryd â'r rôl yn effeithiol a sensitif, gan gysylltu gyda'r athrawon, asiantaethau allanol a'r cynorthwywyr cefnogi dysgu i ffocysu ar raglenni

penodol megis *POPAT* a *Catch-up*. Mae grŵp o ddisgyblion wedi elwa eleni oddi wrth fewnbwn ychwanegol trwy'r Prosiect Llythrennedd Sgiliau Sylfaenol.

127. Mae'r cymorth a ddarperir i ddysgwyr sydd â'u hymddygiad yn amharu ar eu cynnydd yn effeithiol. Defnyddir ystod o strategaethau i annog a chefnogi disgyblion gydag anawsterau ymddygiad. Gwneir cyfeiriadau i'r Gwasanaeth Cefnogi Ymddygiad pan fod angen.
128. Mae'r ysgol yn cefnogi ac arwain disgyblion yn dda, gan gymryd eu cefndir cymdeithasol ac addysgiadol i ystyriaeth. Mae'r ysgol yn rhagweithiol wrth ehangu gorwelion disgyblion trwy roi ystod eang o brofiadau dysgu, cyfleoedd i fynychu canolfan iaith Gymraeg a dewis o gyfrwng addysg iddynt.
129. Mae athrawon yn hyrwyddo cydraddoldeb rhyw ac yn cwestiynu stereoteipio. Cynhwysir yr holl ddisgyblion yn yr un gweithgareddau megis chwaraeon, pynciau ymarferol eraill a pherfformiadau ysgol. Mae arsylwadau dosbarth a thrafodaethau gyda disgyblion yn cadarnhau effeithiolrwydd trefniadau'r ysgol yn y materion hyn.
130. Ceir polisiâu effeithiol i hyrwyddo cyfleoedd cyfartal, hyrwyddo cydraddoldeb hiliol, lleihau pob ffurf o aflonyddwch gan gynnwys bwllian a dileu ymddygiad gormesol. Mae staff yn goruchwyllo disgyblion yn ofalus adeg egwyl ac yn ymyrryd mewn unrhyw achosion sydd yn peri gofid iddynt.
131. Cymerir camau rhesymol i sicrhau nad yw disgyblion anabl yn dioddef o gael eu trin yn llai ffafriol na disgyblion eraill. Ar hyn o bryd, ceir polisiâu, gweithdrefnau ac arferion i drin gyda disgyblion anabl. Mae cynllun hygyrchedd cynhwysfawr wedi ei lunio, a chaiff blaenoriaethau a chynnydd eu monitro'n flynyddol.
132. Mae'r cyngor ysgol yn chwarae rhan weithredol a gwerthfawr ym mywyd yr ysgol, ac mae'r aelodau yn gwerthfawrogi'r cyfle y mae'n ei roi iddynt i effeithio ar benderfyniadau o fewn materion megis cynladwyedd a bwyta'n iach fel ffordd o fyw.

## **Arweinyddiaeth a rheolaeth**

**Cwestiwn Allweddol 5: Pa mor effeithiol yw arweinyddiaeth a rheolaeth strategol?**

### **Gradd 2: Nodweddion da a dim diffygion pwysig**

133. Mae arfarniad y tîm arolygu yn wahanol i'r radd a ddyfarnwyd gan yr ysgol yn ei hadroddiad hunan arfarnu. Cafodd y radd a ddyfarnwyd yn yr adroddiad hunan arfarnu ei seilio ar y dybiaeth fod yn rhaid dyfarnu graddau tebyg i gwestiynau allweddol 1 a 5. Fel y bu hi, dyfarnwyd Gradd 2 i gwestiwn allweddol 1 gan y tîm arolygu, tra dyfarnwyd holl agweddau o gwestiwn allweddol 5 hefyd i fod yn Radd 2.
134. Caiff yr ysgol ei harwain yn gadarn gan y pennaeth a thîm rheoli sydd yn cynnwys y dirprwy bennaeth a'r pennaeth cynorthwyol. Maent yn llwyddo i greu a chynnal amgylchedd trefnus a diogel i'r holl ddisgyblion. Nod y pennaeth yw arwain tîm o athrawon sydd yn anelu at welliant parhaus yn y ddarpariaeth ac yn y safonau, ac yn cynnig cyfleoedd cynyddol i'r disgyblion.

135. Lluniwyd polisïau sydd yn cynnig arweiniad cadarn ar nifer o feysydd cwricwlaidd a bugeiliol.
136. Cynhelir cyfarfodydd staff rheolaidd yn ogystal â chyfarfodydd o'r tîm rheoli ysgol. Mae'r cyfarfodydd yn trin agendau penodol, sydd yn cynnwys materion cwricwlaidd a bugeiliol, a chedwir cofnodion manwl o'r trafodaethau a'r penderfyniadau.
137. Mae'r ysgol ynghlwm ag ystod dda o fentrau a phrosiectau; yn eu plith mae'r Marc Ansawdd ac Eco-Sgolion. Mae addysg ar gyfer bwyta'n iach a hybu ffitrwydd wrth wraidd y cwricwlwm bugeiliol, tra bod ymrwymiad yr ysgol i gêmâu tîm a gweithgareddau chwaraeon yn nodwedd ragorol. Menter ddiweddar yw ei hymwneud â phrosiect 'Darllen Miliwn o Eiriau' yr Asiantaeth Sgiliau Sylfaenol.
138. Mae'r ysgol yn gweithredu yn unol â'r polisi rheoli perfformiad wrth ddatblygu arbenigedd proffesiynol yr athrawon. Mae pob athro llawn amser a dau athro rhan amser ynghlwm â thargedau blynyddol sydd yn cynyddu eu gwybodaeth, eu dealltwriaeth a'u medrau.
139. Ymateba'r tîm rheoli a'r corff llywodraethol yn briodol i'r angen statudol i osod targedau perfformiad yn y pynciau craidd i garfannau o ddisgyblion. Dynodir y targedau yn adroddiad blynyddol y corff llywodraethol i'r rhieni.
140. Mae'r ysgol wedi ffurfio disgrifiadau swydd sydd yn adlewyrchu'r cyfrifoldebau cyfredol ar gyfer y staff addysgu ag atodol. Nid ydynt, ar hyn o bryd, yn cynnwys llofnodion y deiliaid swydd sydd yn dynodi eu bod yn gytundebau 'cytunedig'.
141. Mae'r corff llywodraethol yn hollol ymrwymedig i'r ysgol, ac yn cefnogi bywyd a gweithgareddau'r ysgol yn llwyr. Maent yn ymgymryd â'u cyfrifoldebau monitro yn effeithiol trwy gael eu cysylltu â meysydd cwricwlaidd penodol. Maent yn cyfarfod gyda chydlynwyr perthnasol a chynhyrchir adroddiadau fel cofnod o'r cyfarfodydd.
142. Mae'r corff llywodraethol yn cwrdd â gofynion statudol wrth gwrdd yn rheolaidd a chynhyrchu adroddiad blynyddol effeithiol i rieni. Ceir strwythur o is-baneli, ar gyfer cyllid a'r cwricwlwm, sydd yn cwrdd yn ôl yr angen ac yn adrodd i'r corff llywodraethol llawn.

**Cwestiwn Allweddol 6: Pa mor dda y mae arweinwyr a rheolwyr yn arfarnu ac yn gwella ansawdd a safonau?**

**Gradd 2: Nodweddion da a dim diffygion pwysig**

143. Mae arfarniad y tîm arolygu yn wahanol i'r Radd 3 a ddyfarnwyd gan yr ysgol yn ei hadroddiad hunan arfarnu. Arfarniad y tîm oedd bod gwybodaeth y cydlynwyr cwricwlwm o'r meysydd o fywyd ysgol yr oeddent yn gyfrifol amdanynt yn gryfach na ddynodwyd yn yr adroddiad. Yn ychwanegol, teimlwyd nad oedd yr ysgol wedi rhoi cydnabyddiaeth ddigonol i'r cynnydd a wnaed ers yr arolygiad diwethaf.
144. Yn y tri achos lle anghytunodd y tîm arolygu gydag arfarniad yr ysgol mewn perthynas â'r saith cwestiwn allweddol, dyfarnodd y tîm arolygu radd uwch.
145. Mae hunan arfarnu a'r ymdrech tuag at welliant parhaus yn nodweddion da yn yr ysgol, yn enwedig mewn perthynas â ffurfio arfarniadau cadarn am safonau ac

ansawdd yr addysg a ddarperir. Mae gweithdrefnau da wedi eu sefydlu i gynnwys yr holl staff a'r llywodraethwyr yn y broses a chaiff disgyblion gyfleoedd i fynegi barn trwy'r cyngor ysgol. Fodd bynnag, nid yw'r ysgol yn cynnwys rhieni yn ffurfiol yn y broses hunan arfarnu.

146. Mae rôl monitro'r pennaeth, yr uwch dîm reoli a'r arweinyddion cwricwlwm yn cael effaith gadarnhaol ar ddatblygiad yr ysgol. Mae hunan arfarniadau'r arweinyddion pwnc yn cofnodi cryfderau a meysydd i'w datblygu, yn seiliedig ar fonitro llyfrau, arsylwadau dosbarth a siarad gyda disgyblion a chydweithwyr, yn unol â pholisi monitro'r ysgol. Mae'r amryw bortffolios pynciol a grëwyd yn gwneud cyfraniad pwysig yn y cyd-destun yma.
147. Ceir cysylltiadau clir rhwng y broses hunan arfarnu â'r CDY. Mae'r CDY yn effeithiol yn nhermau dynodi meysydd perthnasol ar gyfer datblygiad ac wrth gofnodi'r strategaethau perthnasol i'w gweithredu. Fodd bynnag, nid yw'r dull o flaenoriaethu agweddau i'w datblygu yn glir; hefyd nid chynhwysir adolygiad o sut mae'r ysgol wedi cyflawni mewn perthynas â thargedau blaenorol.
148. Mae'r ddogfen hunan arfarnu a gynhyrchwyd gan yr ysgol cyn yr arolygiad yn ddogfen o ansawdd da. Mae'r adroddiad yn drylwyr a chafodd yr holl lywodraethwyr a'r staff eu cynnwys yn ei ddatblygiad. Mae'n cynnwys dadansoddiad manwl o holl agweddau o fywyd yr ysgol a cheir dynodiad clir o'r meysydd ar gyfer datblygiad, yn ogystal â chyfeiriadau at feysydd o gryfder.
149. Yn ystod yr ychydig flynyddoedd diwethaf, mae'r broses hunan arfarnu wedi arwain at sefydlu ystod o flaengareddau pwysig a manteisiol. Maent yn cynnwys mentrau ym maes asesu a diwygio'r dull o godi safonau mewn Saesneg. Mae blaengareddau yn ymwneud â datblygiad grwpiau cyfnod, rôl cydlynwyr a chynnwys staff nad ydynt yn addysgu yn fwy effeithiol, wedi bod yn arbennig o lwyddiannus.
150. Ar y cyfan, mae'r ysgol wedi bod yn llwyddiannus wrth fynd i'r afael â materion allweddol yr arolygiad blaenorol. Mae cynnydd wedi bod yn dda mewn nifer o feysydd, gan gynnwys codi safonau ym mron yr holl o'r pynciau a arfarnwyd yn 'foddhaol'. Gwnaed cynnydd mewn perthynas â chydymffurfio gyda threfniadau cofrestru, gwella'r ddarpariaeth ar gyfer disgyblion ag AAY, hybu ymddygiad da, datblygu portffolios ysgol, cynllunio ar gyfer datblygu'r medrau allweddol a gwella gweithdrefnau hunan arfarnu. Fodd bynnag, ni wnaed digon o gynnydd mewn perthynas â chodi safonau Cymraeg (ail iaith) yn y ddau gyfnod allweddol.

### **Cwestiwn Allweddol 7: Pa mor effeithlon y mae'r arweinwyr a rheolwyr wrth ddefnyddio adnoddau?**

<b>Gradd 2: Nodweddion da a dim diffygion pwysig</b>
--

151. Mae arfarniad y tîm arolygu yn cytuno gyda'r radd a ddyfarnwyd gan yr ysgol yn ei hadroddiad hunan arfarnu.
152. Mae'r ysgol yn cyflogi nifer digonol o staff sydd wedi eu cymhwyso'n briodol i gwrdd â'r gofynion cwricwlaidd. Maent yn rhannu ac yn gwneud yn fawr o'u harbenigedd trwy gyfnewid dosbarthiadau ac mae disgyblion yn elwa oddi wrth hyn. Mae gofynion amser 'cynllunio, paratoi ac asesu' yn cael eu cwrdd a defnyddir athro profiadol yn effeithiol i gefnogi ansawdd yr addysgu.

153. Arenwir anghenion athrawon a darperir rhaglen effeithiol i hybu ei datblygiad proffesiynol. Mae ganddynt fynediad da i ystod o hyfforddiant mewn-swydd sydd wedi ei gysylltu gyda rheoli perfformiad a chyda'r CDY.
154. Mae tri o gynorthwyr cymorth dysgu yn darparu cefnogaeth effeithiol i'r addysgu a'r dysgu, gan ffocysu ar ddisgyblion a ddynodwyd ag AAY. Fodd bynnag, dynododd yr arolygiad yr angen am gefnogaeth bellach yng nghyfnod allweddol 1.
155. Mae'r swyddog gweinyddol a staff ategol arall, yn gwneud cyfraniad gwerthfawr i fywyd a gwaith yr ysgol. Mae'r athrawon a'r staff yn creu amgylchedd ddysgu ysgogol trwy arddangosfeydd lliwgar sy'n adnoddau dysgu ac yn fodd i ddathlu gwaith y disgyblion.
156. Ceir digonolrwydd o adnoddau ar draws y cwricwlwm ar gyfer anghenion y disgyblion ac maent ar gael yn hawdd mewn ystafelloedd eang. Mae'r staff a'r disgyblion wedi elwa oddi wrth y bartneriaeth rhwng rhieni a ffrindiau'r ysgol gan iddynt helpu darparu ystafell gyfrifiaduron newydd. Caiff hon ei ddefnyddio'n effeithiol i gefnogi'r addysgu a chodi safonau TGCh ar draws y cwricwlwm. Ceir ystafell gydag adnoddau da ar gyfer cerddoriaeth, tra defnyddir y llyfrgell eang wedi ei chyflenwi'n dda, y gampfa a'r neuadd yn bwrpasol.
157. Mae'r adeiladau a'r ystafelloedd yn gryfder rhagorol o'r ysgol ac er na chafodd ei hadeiladu ar gyfer plant oed cynradd, mae'n cynnig safle ysgogol ar gyfer addysgu a dysgu da a chefnogaeth ar gyfer yr holl ddysgwyr. Mae'r gofalwr a'r glanhawyr yn cyfrannu at safon uchel y glendid a'r ethos o fewn yr ysgol. Dyrennir arian yn flynyddol yn y cyllid i ailwampio ac ailaddurno meysydd o flaenoriaeth. Mae'r ysgol yn elwa'n fawr oddi wrth gyfleusterau da ar gyfer chwarae a gwersi addysg gorfforol.
158. Defnyddir yr ysgol gan sefydliadau allanol, sydd yn gymorth i gadarnhau perthnasau cymunedol da.
159. Mae'r ysgol yn ymwybodol o dermau'r Ddeddf Gwahaniaethu ar Sail Anabledd ac yn sicrhau fod gan ddisgyblion ag anableddau fynediad llawn o fewn adeiladau ac ystafelloedd yr ysgol. Lluniwyd cynllun hygyrchedd cynhwysfawr a dynodwyd blaenoriaethau.
160. Mae pwyllgor cyllid y corff llywodraethol yn cwrdd bob tymor i adolygu incwm a gwariant ac yn sicrhau gwerth am arian yn y gwariannau a wneir gan yr ysgol.

## Safonau a gyflawnir mewn pynciau a meysydd dysgu

### Saesneg

**Cyfnod Allweddol 1: Gradd 3 - Nodweddion da yn gorbwyso diffygion**

**Cyfnod Allweddol 2: Gradd 2 - Nodweddion da a dim diffygion pwysig**

*Yn unol â pholisi'r AALI, caiff Saesneg ei addysgu yn ffurfiol yn y ffrwd Categori B yn unig yng nghyfnod allweddol 1.*

### Nodweddion da

161. Mae mwyafrif y disgyblion yng nghyfnod allweddol 1 yn gwrando'n briodol ac yn ymateb yn briodol a hyderus i gwestiynau'r athrawon. Cânt eu hannog i roi syniadau ac i egluro eu meddyliau.

162. Gwna disgyblion cyfnod allweddol 1 gynnydd boddhaol mewn medrau datgodio ac adnabod geiriau yn eu darllen unigol. Erbyn diwedd y cyfnod allweddol, mae mwyafrif y disgyblion yn darllen gyda chywirdeb a dealltwriaeth gynyddol. Medrant adnabod enwau a'u dynodi mewn darlun eglurhaol.
163. Mae medrau ysgrifennu disgyblion yng nghyfnod allweddol 1 ar gyfnod cynnar o ddatblygiad. Dechreuwa disgyblion ysgrifennu mewn ymateb i stori a chreu deialog syml. Darllenant eu gwaith yn uchel a thrafod ansawdd yr hyn a ysgrifennwyd.
164. Yng nghyfnod allweddol 2, gwrandawa'r disgyblion yn astud ar safbwyntiau eraill mewn trafodaeth ac mae'r mwyafrif yn ymateb i gwestiynau mewn dull ystyrlon.
165. Yn gyffredinol, mae safonau darllen yn foddhaol. Mae disgyblion yn ennill hyder wrth ddarllen ystod addas o destunau ac yn dynodi nodweddion llyfrau gan wahaniaethu rhwng deunydd ffuglen a ffeithiol. Ymatebant yn dda i destunau llenyddol gaiff eu cyflwyno i'r dosbarth a medrant gyfeirio at ystod o awduron o lenyddiaeth plant, yn unol â'u chwaeth personol.
166. Gwna disgyblion â medrau darllen danddatblygedig gynnydd boddhaol. Cânt eu cefnogi'n dda trwy ddarpariaeth wahaniaethol sydd wedi ei dargedu. Mae disgyblion ar draws yr ysgol yn elwa oddi wrth gyfleoedd i ddarllen gydag oedolion sydd yn gwirfoddoli.
167. Mae medrau ysgrifennu yn datblygu'n dda ar draws cyfnod allweddol 2. Defnyddir testunau yn seiliedig ar lythrennedd yn effeithiol fel ysgogiad ar gyfer tasgau gramadeg ac ysgrifennu estynedig. Mae ysgrifennu cyfarwyddiadol a llythyron yn datblygu'n effeithiol ym mhen isaf cyfnod allweddol 2. Dealla mwyafrif y disgyblion strwythur cwpled sy'n odli a phatrymau rhythmig wrth gyfansoddi limrig, a medrant ddefnyddio'r nifer cywir o sillafau i ffurfio haicw, gan ddefnyddio delweddau a chyffelybiaethau.
168. Erbyn diwedd y cyfnod allweddol, mae disgyblion yn cynhyrchu esiamplau da eraill o ysgrifennu dychmygus ar ffurf barddoniaeth, llythyron o gŵyn a chais am swydd, adroddiadau papur newydd, dyddiaduron a storïau. Mae disgyblion yn sganio, dewis ac ysgrifennu gwybodaeth oddi wrth destun ffeithiol ac yn paratoi sgriptiau drama ar gyfer ystod estynedig o ddarllenwyr ar ôl darllen un o ddramâu Shakespeare. Wrth iddynt ddatblygu, gwnânt ddefnydd cynyddol o baragraffau a daw gramadeg a sillafu yn fwy cywir.

### **Diffygion**

169. Ceir diffyg amrywiaeth yng ngwaith ysgrifenedig disgyblion cyfnod allweddol 1 yn y defnydd o batrymau brawddeg.
170. Mae medrau llaw-ysgrifen disgyblion yn annatblygedig yng nghyfnod allweddol 1.
171. Nid yw disgyblion cyfnod allweddol 2 yn golygu ac ail-ddrafftio eu gwaith yn ddigon cyson er mwyn ei wella a'i fireinio.

## Cymraeg ail iaith

### Cyfnod Allweddol 1: Gradd 3 - Nodweddion da yn gorbwyso diffygion Cyfnod Allweddol 2: Gradd 3 - Nodweddion da yn gorbwyso diffygion

#### Nodweddion da

172. Yn gyffredinol, gwna disgyblion dosbarth derbyn a chyfnod allweddol 1 gynnydd cadarn, wrth ddod yn gyfarwydd â sŵn yr iaith ac ennill gafael ar eirfa a phatrymau iaith elfennol. Wrth iddynt symud drwy'r ysgol, gwnânt gynnydd priodol yn eu medrau ynganu a goslefu.
173. Gwna disgyblion yng nghyfnod allweddol 1 gynnydd priodol ym medrau siarad a gwrando o fewn cyd-destun y testun penodol o dan sylw. Datblygant gaffaeliad da o ystod gyfyngedig o batrymau brawddeg a'r eirfa sy'n berthynol i briodweddau personol, ac ymatebant yn briodol i gwestiynau a berthyn i stori dosbarth.
174. Mae disgyblion yn gwneud peth cynnydd wrth ddarllen testunau syml, penawdau a llyfr stori'r dosbarth, gyda lefelau priodol o ddealltwriaeth ac yn aml gyda mynegiant da. Mae lleiafrif yn dechrau darllen yn fwy annibynnol.
175. Mae disgyblion ar draws y cyfnod allweddol yn ysgrifennu geiriau a chymalau syml yn effeithiol. Mae lleiafrif o ddisgyblion hŷn yn gallu ysgrifennu brawddegau byr.
176. Dengys disgyblion ar draws cyfnod allweddol 2 fedrau siarad a gwrando priodol a defnyddiant batrymau iaith a geirfa priodol yn berthnasol i agweddau o wybodaeth bersonol a thestunau penodol, megis glan y môr ar ben isaf y cyfnod allweddol a'r gyfres 'Gwyliau George' ar y pen uchaf. Ymateba mwyafrif y disgyblion yn briodol i gwestiynau. Mae mwyafrif y disgyblion hŷn yn gallu rhoi rhesymau am ddewisiadau a defnyddiant batrymau brawddegol yn gysylltiedig â'r trydydd person o fewn strwythur brawddeg gyfyngedig.
177. Ar draws y cyfnod allweddol, ar lefelau priodol, gwna mwyafrif y disgyblion gynnydd wrth ddarllen o fewn cyd-destunau cyfyngedig a sefyllfaoedd dosbarth-cyfan. Mae lleiafrif o ddisgyblion hŷn yn datblygu'n dda fel darllenwyr annibynnol yn nhermau cywirdeb, mynegiant a dealltwriaeth.
178. Gwna mwyafrif y disgyblion ar draws cyfnod allweddol 2 gynnydd priodol yn eu medrau ysgrifennu. Ar y pen isaf, ysgrifenna'r mwyafrif ystod o frawddegau a pharagraffau byr gan ddefnyddio'r patrymau a roddir iddynt. Wrth ddefnyddio patrymau cyfarwydd, ysgrifenna disgyblion hŷn ddarnau mwy estynedig o ysgrifennu, gan gynnwys dyddiaduron a deialogau.

#### Diffygion

179. Yn y ddau gyfnod allweddol, mae gallu nifer o ddisgyblion i gynnal sgysiau mwy estynedig, sydd yn cynnwys ystod o batrymau brawddeg, yn annatblygedig.
180. Mae nifer arwyddocaol o ddisgyblion, yn y ddau gyfnod allweddol, yn arddangos medrau darllen annibynnol cyfyngedig.
181. Nid yw disgyblion yn defnyddio'r iaith ysgrifenedig i gofnodi eu profiadau ym meysydd eraill y cwricwlwm.

**Mathemateg**

**Cyfnod Allweddol 1: Gradd 2 – Nodweddion da a dim diffygion pwysig**

**Cyfnod Allweddol 2: Gradd 2 – Nodweddion da a dim diffygion pwysig**

**Nodweddion da**

182. Ar draws cyfnod allweddol 1, gwna mwyafrif y disgyblion, mewn perthynas â'u hoed a'u gallu, gynnydd da a chyflawnant yn dda yn eu dealltwriaeth o rif ag arian. Maent yn gwahaniaethu rhwng eilrifau ac odrifau ac mae'r mwyafrif yn adio a thynnu yn gywir. Erbyn diwedd y cyfnod allweddol, mae ganddynt gaffael da o dablau lluosu dau, phump a deg. Mae gan nifer arwyddocaol ddealltwriaeth dda o haneri a ffracsiynau.
183. Datblyga mwyafrif o ddisgyblion B1 a B2 ddealltwriaeth dda o siapau dau-ddimensiwn a'u priodweddau. Gall y mwyafrif arenwi siapau thri-dimensiwn. Mae mwyafrif y disgyblion yn datblygu dealltwriaeth dda o amser mewn cyfnodau hanner awr, tra bod rhai disgyblion B1 a nifer o ddisgyblion B2 yn ffocysu'n dda ar y chwarter awr. Mae mwyafrif y disgyblion, ar lefelau priodol, yn dechrau creu graffiau bar a phictogramau syml yn gysylltiedig ag, er enghraifft, priodweddau personol ac mae'r mwyafrif yn dechrau dehongli graffiau yn briodol. Gwna mwyafrif y disgyblion gynnydd priodol yn ei medrau datrys problemau mewn gwaith yn gysylltiedig â rhif ag arian. Mae lleiafrif o ddisgyblion B2 yn cyflawni safonau uchel yn y cyd-destun yma.
184. Ar draws cyfnod allweddol 2, gwna mwyafrif y disgyblion gynnydd da wrth ddefnyddio eu tablau ac wrth ddatblygu eu medrau mathemateg pen.
185. Datblyga disgyblion ar draws y cyfnod allweddol ddealltwriaeth dda o bwysau a mesur ac, erbyn pen uchaf y cyfnod allweddol, mae gan ddisgyblion afael da ar y cysyniad o arwynebedd a pherimedr. Gwnânt gynnydd da yn eu dealltwriaeth o amser ac, ar y pen uchaf, mae'r mwyafrif yn cymharu amseroedd analog a digidol yn effeithiol ac yn arddangos medrau da mewn gwaith datrys problemau yn y cyd-destun yma.
186. Gwna disgyblion ar draws y cyfnod allweddol gynnydd da yn eu dealltwriaeth a'u defnydd o ffracsiynau. Yn B4, er enghraifft, dengys mwyafrif y disgyblion ddealltwriaeth dda o ffracsiynau symiau o arian. Erbyn diwedd y cyfnod allweddol, mae gan fwyaf y disgyblion ddealltwriaeth dda o'r berthynas rhwng degolion, canrannau a ffracsiynau.
187. Ar draws cyfnod allweddol 2, gwna disgyblion gynnydd da yn eu gwaith bas-data. Defnyddia mwyafrif y disgyblion ar ben isaf y cyfnod allweddol diagramau Venn a Carroll yn dda ac arddangosant fedrau da wrth greu ystod o wahanol fathau o graffiau. Mae eu medrau wrth gasglu gwybodaeth oddi wrth dablau a graffiau yn datblygu'n dda. Mae mwyafrif y disgyblion ar ben uchaf y cyfnod allweddol yn ffocysu'n dda ar y cysyniadau o amrediad, modd a chymedr yn eu gwaith bas-data.
188. Mae disgyblion ar draws y cyfnod allweddol yn arddangos dealltwriaeth dda o siapau dau a thri-dimensiwn a'u priodweddau ac, ar lefelau priodol, yn ffocysu'n dda ar y cysyniadau o adlewyrchiad a chymesured. Mae dealltwriaeth disgyblion hyn o'r nodweddion hyn wedi ei ddatblygu'n dda. Arddangosa disgyblion ar ben uchaf y cyfnod allweddol wybodaeth dda o wahanol fathau o drianglau.

189. Mae mwyafrif y disgyblion ar draws y cyfnod allweddol yn gwneud cynnydd da wrth gymhwyso mathemateg ac yn eu medrau datrys problemau.

### **Diffygion**

190. Mae medrau mathemateg pen lleiafrif arwyddocaol o ddisgyblion yn y ddau gyfnod allweddol yn annatblygedig.

191. Mae lleiafrif o ddisgyblion yn y ddau gyfnod allweddol yn arddangos medrau datrys problemau cyfyngedig.

<b>Celf</b>
-------------

### **Cyfnod Allweddol 1: Gradd 2 – Nodweddion da a dim diffygion pwysig**

### **Cyfnod Allweddol 2: Gradd 1 – Da gyda nodweddion rhagorol**

#### **Nodweddion rhagorol**

192. Mae disgyblion yng nghyfnod allweddol 2 yn creu printiadau sgrin rhagorol, yn null arlunydd cyfoes sydd yn arbenigo mewn patrymau geometrig. Mae eu gwaith gorffenedig yn dilyn eu prosesau ymchwiliol a chynllunio.

193. Mae disgyblion cyfnod allweddol 2 yn cynhyrchu darluniau trawiadol yn seiliedig ar adeiladau ac adeileddau yn yr amgylchedd, lle mae eu dealltwriaeth ddatblygol o bersbectif yn amlwg.

#### **Nodweddion da**

194. Yng nghyfnod allweddol 1, mae disgyblion yn ymwybodol gall gwead gwrthrychau amrywio, a gellir cynrychioli gweadau gan rwiadau.

195. Arddangosa nifer o ddisgyblion B1 reolaeth dda wrth ymgymryd â gwaith lliwio, gyda llyfndra tôn yn nodwedd o'u gwaith.

196. Maent yn gallu arsylwi ar waith arlunwyr megis Picasso a gwerthuso a chynnig sylwadau ar eu gwaith.

197. Defnyddiant raglenni arlunio yn effeithiol i greu lluniau sydd yn archwilio lliw a phatrwm.

198. Yng nghyfnod allweddol 2, defnyddia disgyblion ymweliad cychwynnol i felin wlân i gynhyrchu patrymau diddorol o fewn eu gwaith dilynol ar wehyddu a ffeltio. Mae eu gwaith clymu a lliwio yn arddangos ymwybyddiaeth debyg o broses sydd yn arwain at gynnyrch gorffenedig effeithiol.

199. Defnyddiant fedrau torri a phlygu perthnasol i ffurfio adeileddau, wedi iddynt wneud y penderfyniadau ynghynt am ddeunydd a gweadau priodol.

200. Wrth werthuso eu gwaith, arddangosa disgyblion wybodaeth dda o eirfa briodol, a dealltwriaeth gadarn o wahanol agweddau, megis lliw, golau, patrwm a llinell.

201. Defnyddia disgyblion TGCh yn effeithiol i greu diagramau data-gwe i gofnodi siapau, symbolau a gwrthrychau yn berthnasol i adeiladau.

### **Diffygion**

202. Nid oes unrhyw ddiffygion pwysig.

## Cerddoriaeth

### Cyfnod Allweddol 1: Gradd 2 – Nodweddion da a dim diffygion pwysig

### Cyfnod Allweddol 2: Gradd 2 – Nodweddion da a dim diffygion pwysig

#### Nodweddion da

203. Yng nghyfnod allweddol 1, mae disgyblion yn canu amrywiaeth o ganeuon mewn tiwn yn dda. Maent yn canu'n naturiol a gydag awch ond maent hefyd yn dechrau defnyddio deinameg yn eu perfformiadau, sy'n arwain at welliant yn ansawdd y sain.
204. Mae disgyblion ieuengaf cyfnod allweddol 1 yn archwilio synau wrth ymateb i ysgogiadau a defnyddiant offerynnau taro i berfformio eu cyfansoddiadau. Trafodant effeithiolrwydd ystod o gerddoriaeth, gan gynnwys eu cyfansoddiadau a'u perfformiadau eu hunain. Mae'r rhai mwy galluog yn gwneud hyn yn effeithiol ac yn ddychmygus.
205. Mae gan y mwyafrif ddealltwriaeth dda o rythm a gallant efelychu'r curiad yn gywir ac atseinio patrymau clapio yn gywir.
206. Gall disgyblion pen isaf cyfnod allweddol 2 ganu'n soniarus ac maent yn ymwybodol o'r deinameg. Medrant ddefnyddio'u cyrff yn effeithiol i symud i ysgogiad cerddorol. Deallant fod gwahanol synau yn creu naws a delweddau cyferbyniol.
207. Mae disgyblion yn ymateb i gerddoriaeth *Gustav Holst* ac yn hyderus wrth wahaniaethu o fewn yr elfennau cerddorol pan maent yn gwerthuso. Defnyddiant y derminoleg gerddorol yn gywir wrth drafod perfformiadau a chymharu cerddoriaeth planedau Mawrth a Gwener.
208. Arddangosa disgyblion pen uchaf cyfnod allweddol 2 wybodaeth ddatblygol o elfennau cerddorol. Mewn grwpiau bychan, maent yn arbroti'n frwdfrydig gydag offerynnau traw a di draw i fireinio eu dilyniannau cerddorol a chreant ostinato yn seiliedig ar '*the peaceful music of the spheres*'. Ysbrydolwyd y gwaith yma gan stori '*The Iron Man*' a ddarllenwyd yn ystod gwersi Saesneg. Gwrandawant ar eu cyfansoddiadau, a'u gwerthuso, gan roi barn adeiladol. Maent yn cyfuno'r cyfansoddiadau i berfformio caneuon cylch.
209. Mewn perfformiad grŵp o offerynnau taro mae disgyblion yn cynnal rhan yn gywir. Maent yn gallu cofnodi eu gwaith ar ffurf sgôr graffig a'i ddilyn yn gywir wrth berfformio.
210. Mae ganddynt ymwybyddiaeth gynyddol o gyfansoddwyr Cymreig megis *Karl Jenkins*, ac maent yn astudio cyfansoddwyr megis *Bach* gyda mwy o fanylder.
211. Mae nifer o ddisgyblion yn manteisio ar y cyfle i ddysgu un o saith gwahanol offeryn a addysgir gan athrawon teithiol. Mae disgyblion yn canu'n soniarus yn ystod gwasanaethau a rhoddir cyfleoedd i gymryd rhan mewn amryw o gyngherddau a pherfformiadau yn y gymuned, sydd yn nodwedd gref o'r ysgol. Cânt hefyd gyfleoedd i wrando ar gerddoriaeth fyw, megis drymio Affricanaidd, pan fydd cerddorion yn ymweld â'r ysgol. Mae'r rhain yn cyfrannu'n helaeth at ddealltwriaeth a gwybodaeth y disgyblion o amrywiaeth o gyfansoddwyr a genre cerddorol.

#### Diffygion

212. Nid oes unrhyw ddiffygion pwysig.

## Addysg gorfforol

### Cyfnod Allweddol 1: Gradd 1 – Da gyda nodweddion rhagorol

### Cyfnod Allweddol 2: Gradd 2 – Nodweddion da a dim diffygion pwysig

#### Nodweddion rhagorol

213. Arddangosa disgyblion pen uchaf cyfnod allweddol 1 ystwythder a rheolaeth gorfforol ragorol.
214. Maent yn dyfeisio, ymarfer ac arddangos dilyniannau o neidiau, rholiadau a gweithgareddau cydbwysu mewn dull rheoledig a bwriadol. Maent yn cydweithio'n dda ar dasgau penodol.

#### Nodweddion da

215. Dealla disgyblion cyfnod allweddol 1 bwysigrwydd cynhesu'r corff ac o weithgareddau oeri cyn ac ar ôl ymarfer corfforol.
216. Gwnânt ddefnydd effeithiol iawn o'r llawr a medrant addasu a datblygu eu gwaith ymhellach ar ddarnau o gyfarpar mawr.
217. Maent yn gallu cynnig sylwadau dilys ac adeiladol ar berfformiadau eu cyd-ddisgyblion.
218. Mae nifer o ddisgyblion cyfnod allweddol 2 yn gallu datblygu meistrolaeth gynyddol o fedrau athletig penodol, megis technegau newid-drosodd mewn ras gyfnewid. Maent yn addasu eu medrau i sefyllfa gweithgaredd.
219. Maent yn ymwneud yn frwdfrydig mewn gweithgareddau grŵp neu dîm, ac arddangosant ymwybyddiaeth dda o reolau a chanllawiau.
220. Mae nifer o ddisgyblion yn ymglymu'n llawn gyda themâu gwersi dawns, gan gynnig eu syniadau eu hunain, a gallant gyfleu ystyron yn briodol trwy eu dilyniannau o symudiadau.

#### Diffygion

221. Yng nghyfnod allweddol 2, mae nifer fechan o ddisgyblion yn ansicr o dechnegau caiff eu pwysleisio yn ystod gwersi; ar brydiau, mae hyn oherwydd diffyg sylw ar eu rhan nhw, am iddynt fethu gwrando ar y cyfarwyddiadau a rhoddir.
222. Mae gwisgo esgidiau yn amharu ar berfformiadau rhai disgyblion mewn gwersi dawns; mae'n golygu nad ydynt yn ymateb cystal i newidiadau yn nhempo'r gerddoriaeth.

## Ymateb yr ysgol i'r arolygiad

Mae'r ysgol yn cytuno gyda chynnwys yr adroddiad. Mae'n falch fod y tîm arolygu wedi penderfynu codi graddau a roddwyd gan yr ysgol yn yr adroddiad hunan arfarnu ar gyfer cwestiynau allweddol un, pump a chwech.

Creda'r ysgol fod yr arolygiad wedi rhoi cyfle i gydnabod y pethau cadarnhaol mae'r ysgol yn eu gwneud, yn ogystal â rhoi gwybodaeth am y meysydd sydd angen gwelliant.

Bydd yr ysgol nawr yn ymgorffori'r pum argymhelliad ar gyfer gwelliant pellach i'w gynllun datblygu, o fewn y cyfnod statudol. Caiff y cynllun yma, neu grynodedd ohono, ei ddsbarthu i holl rieni'r ysgol, a chaiff adroddiad ar y cynnydd a wneir ei roi i'r rhieni yn flynyddol.

## Atodiad 1

### Gwybodaeth sylfaenol am yr ysgol

Enw'r ysgol	Ysgol Griffith Jones
Math o ysgol	Meithrin a Chynradd
Ystod oedran y disgyblion	3-11
Cyfeiriad yr ysgol	Heol yr Orsaf Sanclêr Sir Gaerfyrddin
Cod post	SA33 4BT
Rhif ffôn	01994 230589

Pennaeth	Mr D Spencer Jones
Dyddiad penodi	Medi 1995
Cadeirydd y llywodraethwyr	Dr E Davies
Arolygydd cofrestredig	Len Jones
Dyddiadau'r arolygiad	21-24 Mai 2007

## Atodiad 2

### Data a dangosyddion ysgol

Nifer y disgyblion ym mhob grŵp blwyddyn									
Grŵp blwyddyn	M (call)	D	B1	B2	B3	B4	B5	B6	Cyfanswm
Nifer y disgyblion	15	27	21	17	29	35	31	29	220

Cyfanswm nifer yr athrawon			
	Amser llawn	Rhan-amser	Cyferwerth ag amser llawn (call)
Nifer yr athrawon	10	1	10.4

Gwybodaeth staffio	
Cymhareb disgybl: athro (call) (ac eithrio dosbarthiadau meithrin ac arbennig)	20.6 : 1
Cymhareb disgybl: oedolyn (call) mewn dosbarthiadau meithrin	9.5 : 1
Cymhareb disgybl: oedolyn (call) mewn dosbarthiadau arbennig	-
Cyfartaledd maint dosbarth, ac eithrio dosbarthiadau meithrin ac arbennig	26.4
Cymhareb athro (call): dosbarth	1.2 : 1

Canran presenoldeb ar gyfer y tri thymor cyflawn cyn yr arolygiad			
Tymor	M	D	Gweddill yr ysgol
Haf 2006	85.8	91	92.6
Hydref 2006	85.5	93.9	94
Gwanwyn 2007	77.9	93.8	93.6

Canran y disgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim	9%
Nifer y disgyblion a gafodd eu gwahardd yn ystod y 12 mis cyn yr arolygiad	5

### Atodiad 3

#### Canlyniadau Asesiadau'r Cwricwlwm Cenedlaethol Diwedd cyfnod allweddol 1:

Canlyniadau Asesiadau CA1 y Cwricwlwm Cenedlaethol 2006			Nifer y disgyblion yn B2					25
Canran y disgyblion ar bob lefel								
			D	W	1	2	3	
Cymraeg	Asesiad athro	Ysgol	0	0	15	62	23	
		Cenedlaethol	0	2	8	64	26	
Cymraeg: llafaredd	Asesiad athro	Ysgol	0	0	15	85	0	
		Cenedlaethol	0	1	0	64	25	
Cymraeg: darllen	Asesiad athro	Ysgol	0	0	15	54	31	
		Cenedlaethol	-	2	15	60	22	
Cymraeg: ysgrifennu	Asesiad athro	Ysgol	0	0	38	38	23	
		Cenedlaethol	0	2	18	66	13	
Saesneg:	Asesiad athro	Ysgol	8	0	33	50	8	
		Cenedlaethol	0	4	12	64	20	
Saesneg: darllen	Asesiad athro	Ysgol	8	0	33	42	17	
		Cenedlaethol	0	4	14	56	0	
Saesneg: ysgrifennu	Asesiad athro	Ysgol	8	0	50	33	8	
		Cenedlaethol	0	5	14	69	0	
Saesneg: siarad a gwranddo	Asesiad athro	Ysgol	8	0	8	67	17	
		Cenedlaethol	0	2	11	64	23	
Mathemateg	Asesiad athro	Ysgol	4	0	20	72	4	
		Cenedlaethol	0	2	10	63	24	
Gwyddoniaeth	Asesiad athro	Ysgol	4	0	24	68	4	
		Cenedlaethol	0	2	9	65	24	

Canran y disgyblion yn cyrraedd o leiaf lefel 2 mewn mathemateg, gwyddoniaeth a Saesneg neu Gymraeg (iaith gyntaf) yn ôl asesiad athro

Yn yr ysgol	60	Yng Nghymru	81
-------------	----	-------------	----

#### Diwedd cyfnod allweddol 2:

Canlyniadau Asesiadau CA2 y Cwricwlwm Cenedlaethol 2006			Nifer y disgyblion yn B6								33
Canran y disgyblion ar bob lefel											
			D	A	F	W	1	2	3	4	5
Saesneg	Asesiad athro	Ysgol	0	0	0	0	0	3	18	62	15
		Cenedlaethol									
Cymraeg	Asesiad athro	Ysgol	0	0	0	0	0	6	6	89	0
		Cenedlaethol									
Mathemateg	Asesiad athro	Ysgol	0	0	0	0	0	3	15	56	24
		Cenedlaethol									
Gwyddoniaeth	Asesiad athro	Ysgol	0	0	0	0	0	3	3	79	12
		Cenedlaethol									

Canran y disgyblion yn cyrraedd o leiaf lefel 4 mewn mathemateg, gwyddoniaeth a Saesneg neu Gymraeg (iaith gyntaf) yn ôl asesiad athro

Yn yr ysgol	71	Yng Nghymru	74
-------------	----	-------------	----

- D Disgyblion a eithrir dan drefniadau statudol o ran o'r Cwricwlwm Cenedlaethol neu'r cyfan ohono  
A Disgyblion sydd wedi methu cofrestru lefel oherwydd absenoldeb  
F Disgyblion sydd wedi methu cofrestru lefel am resymau ar wahân i absenoldeb  
W Disgyblion sy'n gweithio tuag at lefel 1

## Atodiad 4

### Sail dystiolaeth yr arolygiad

- Ymgwymerwyd â'r arolygiad gan dîm o bedwar arolygydd, oedd yn bresennol yn yr ysgol am naw 'diwrnod arolygu'.
- Cynhaliwyd cyfarfodydd cyn-arolwg gyda'r rhieni, lle'r oedd 18 rhiant yn bresennol, a gyda'r corff llywodraethol, i drafod bywyd a gwaith yr ysgol.
- Dychwelwyd 47 holiadur rhieni, ac fe'u dadansoddwyd yn ofalus.
- Cynhaliwyd trafodaethau gyda'r pennaeth a'r athrawon.
- Archwiliwyd dogfennaeth ysgol.
- Arsylwyd 24 gwrs neu ran o wers.
- Archwiliwyd samplau o waith disgyblion ym mhob grŵp oedran.
- Cynhaliwyd trafodaethau gyda disgyblion am agweddau o fywyd ysgol ac am eu gwaith.
- Arsylwyd ymddygiad disgyblion yn ystod amser chwarae, amser cinio ac ar ddechrau a diwedd y sesiynau ysgol.
- Roedd arolygwyr yn bresennol yn ystod sesiynau cyd-addoli.
- Cynhaliwyd cyfarfodydd ôl-arolwg gyda'r staff a'r corff llywodraethol.

## Atodiad 5

### Cyfansoddiad a chyfrifoldebau'r tîm arolygu

Aelod tîm	Cyfrifoldebau
Len Jones (Arolygydd Cofrestredig)	Cyd-destun, crynodeb, argymhellion; Cwestiynau Allweddol 1, 2(a), 5; celf, addysg gorfforol
Audrey Evans (Arolygydd Tîm)	Cwestiynau Allweddol 4 a 7 Saesneg, cerddoriaeth
Brinley Jones (Arolygydd Tîm)	Cwestiynau Allweddol 2(b), 3, a 6 mathemateg, Cymraeg (ail iaith)
Gwynoro Jones (Arolygydd Lleyg)	Cyfraniadau i Gwestiynau Allweddol 1, 3, 4 a 7
Mrs Beti-Wyn James	Enwebai

### Cydnabyddiaeth

***Hoffai'r tîm arolygu ddiolch i'r llywodraethwyr, y pennaeth, staff, disgyblion a rhieni am eu cydweithrediad a'u cwrteisi trwy gydol yr arolygiad.***

#### Contractwr:

EPPC/Severn Crossing Cyf  
Swit H, Tŷ Britannic  
Llandarsi  
Castell Nedd SA10 6JQ